# Y DINESYDD

Medi 2023 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 480 £1.20




*Beca Evans: Cricedwraig o Fri*

*tud. 13*





*Cai Llewelyn Evans:*

*Enillydd Y Fedal Ddrama* *tud. 4*

*Llun: BBC Cymru Fyw*

*Cysgodion diwedd haf*
*Parc Biwt*

*Llun: Aled Hall*

# Y DINESYDD


**Golygydd:**
**David Charles**

***Golygydd Hydref***
***Manon Phillips***

Cyfraniadau erbyn 27 Medi at:
manonph@googlemail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Gwilym Dafydd
eirianagwilym@gmail.com
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 7EJ
029 20657108

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Llywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Golygyddol

Wel, blwyddyn arall wedi hedfan heibio ers i mi sgwennu i'r *Dinesydd*, a rhai materion pwysig y byd dal heb eu hadfer. Rhyfel erchyll Putin yn dal i ymlwybro 'mlaen, cynhesu byd eang yn dangos ei ddannedd o ddifri gyda'r tanau gwyllt a llifogydd ofnadwy dros y byd, ffoaduriaid truenus yn parhau i golli eu bywydau wrth geisio bywyd gwell a ('dwi'n trio peidio bod yn rhy wleidyddol yma!) Donald Trump yn geffyl blaen ar gyfer y ras i'r Tŷ Gwyn. A beth sy'n corddi'r dyfroedd wrth sgwrsio efo fy nghyd-aelodau yn y clwb golff (dynion!), wrth ddarllen llythyrau i'r wasg neu wrth weld sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol? – cael ein cyfyngu i yrru ugain milltir yr awr ar ein ffyrdd trefol! A phwy sy'n cael y bai am hyn? Gwleidyddion wrth gwrs (ac yn enwedig y cocyn hitio Mark Drakeford). Trïwch ddweud wrth y bobl 'ma mai penderfyniad democrataidd oedd hyn (ac un o fwyafrif sylweddol!) ac mae nhw'n edrych yn syn arnoch. F'ateb iddynt yw "Mae gennym ni'r gwleidyddion 'dyn ni'n haeddu!" A dim rhyfedd - faint ohonom fyddai'n annog ein pobl ifanc i ddilyn gyrfa fel gwleidydd? Amlygu eu hunain i gael eu pardduo'n ddi-baid yn y wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Dim fi!

Hidia befo – dyma rhifyn disglair arall o'r *Dinesydd* i godi'n calonnau! Mwynhewch!




***Teisen y dathlu - gweler tud. 12***

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd Frenhinol
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



*"Dyma ni nôl yn y tresi"*

Dyma ni nôl yn y tresi bellach wedi seibiant dros fis Awst a rwan mae tymor arall o brysurdeb o'n blaenau fydd yn arwain at ddathlu'r Nadolig. Siomedig odd y tywydd dros yr haf ar ôl yr wythnos anarferol o boeth nôl ym mis Mehefin. Ond rhaid i ni gyfrif ein bendithion wrth glywed am y tanau gwyllt difaol sy wedi llosgi rhannau o'r Eidal, Gwlad Roeg, Califfornia, Hawaii a Chanada a difetha bywydau miloedd o bobl. Hwyrach y cawn ni haf bach Mihangel y mis hwn cyn i'r hydref ddod i'n rhybuddio bod y gaeaf ar ein gwarthaf.

Cafwyd llu o ddigwyddiadau i'n diddori yn ystod yr haf a'r uchafbwynt wrth gwrs i laweroedd odd mynychu Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd ym Moduan ger Pwllheli i fwynhau wythnos o Gymreictod mewn rhan hynod hardd o Gymru. Mae ardal yr Eisteddfod yn un wledig ac yn eitha tlawd ond serch hynny llwyddwyd i godi hanner miliwn o bunnoedd tuag at gostau cynnal yr ŵyl a gostiodd yn gyfan gwbl dros chwe miliwn i'w llwyfannu. Bydd angen ein cefnogaeth i'r Eisteddfod a ddaw i Bontypridd y flwyddyn nesa a bydd angen pob ceiniog ar y Pwyllgor Gwaith i sicrhau llwyddiant eto ar ôl y chwip o Eisteddfod ym Moduan eleni. Felly, cofiwch anfon eich hatling i ddangos eich cefnogaeth ymarferol i ymdrechion y Pwyllgor Gwaith dan arweiniad brwdfrydig Helen Prosser y cadeirydd!

Gwnaeth llawer o drigolion Caerdydd a'r Fro ddisgleirio ym Moduan ac felly llongyfarchiadau gwresog iddyn nhw i gyd. Yn eu plith odd Ceri Llewelyn Evans, enillydd y Fedal Ddrama sy'n byw yn Nhreganna ond yn dod yn wreiddiol o Bontarddulais. Enillodd y soprano Llinos Haf Jones o Benarth, Medal Goffa Osborne Roberts a dyfarnwyd y Fedal Wyddoniaeth i Dr Alan Shore gynt o Dredegar Newydd ond sy'n byw yn Rhiwbeina bellach. Fo odd Cadeirydd y Pwyllgor Gwyddoniaeth yn Eisteddfod Môn a chafwyd clamp o babell ar y maes a ddenodd y miloedd dros wythnos yr ŵyl.

Graddiodd Dr Alan Shore mewn mathemateg yng Ngholeg yr Iesu yn Rhydychen cyn troi at beirianneg ac electroneg a bu'n darlithio ym Mhrifysgolion Lerpwl a Chaerfaddon cyn dod yn Athro ym Mhrifysgol Bangor. Mae o'n Gymro i'r carn ac yn llawn haeddu'r anrhydedd a ddaeth i'w ran ym Moduan.

Erbyn yr Eisteddfod y flwyddyn nesa bydd Archdderwydd newydd yn arwain yr Orsedd sef Mererid Hopwood sy'n enedigol o Gaerdydd ac yn gyn-ddisgybl o Ysgol Llanhari. Mererid odd y ferch gyntaf i ennill Cadair yr Eisteddfod yn Ninbych nôl yn 2001 ac mae nifer o anrhydeddau wedi dod i'w rhan dros y blynyddoedd. Ar hyn o bryd mae hi'n Athro Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Hi fydd yr ail ferch i ddod yn Archdderwydd yn dilyn Christine James o'r Eglwys Newydd a fuodd yn y swydd cyn Myrddin ap Dafydd.

Yn ystod yr haf cafodd y genedl golledion ym marwolaethau Clive Rowlands ym myd rygbi, Ann Clwyd y cyn aelod seneddol dros Aberdâr ac Eleri Betts a Sian John ym myd addysg a hefyd R Alun Evans ym myd yr Eisteddfod, darlledu a chrefydd. Cydymdeimlir â'r teuluoedd oll yn eu colled.

Ond llawenydd ar y llaw arall ydy llongyfarch Jamie Roberts y cyn-chwaraewr rygbi rhyngwladol ac yn gyn-ddisgybl o Ysgol Glantaf ar dderbyn gradd anrhydedd gan Brifysgol Met Caerdydd.

Un arall o gyn-ddisgyblion Ysgol Glantaf ydy Rhys Patchell, chwaraewr rygbi rhyngwladol arall ac ym Medi bydd yn chwarae rygbi i dîm 'The Highlanders' yn ninas Dunedin ar Ynys y De yn Seland Newydd. Dylai deimlo'n gartrefol yno gan fod cyn-ddisgybl arall o Ysgol Glantaf yn ddarlithydd yn y Brifysgol yno sef Owen Jones gynt o'r Eglwys Newydd! Pob dymuniad da i ti Rhys draw yn Seland Newydd ond brysia'n ôl!

Ar ôl blynyddoedd o ymgyrchu gan drigolion Cyncoed a'r cylch llwyddwyd i rwystro Cwmni Americanaidd rhag adeiladu 300 o dai ar safle hen gronfeydd dŵr yn Llanisien a Llysfaen a adeiladwyd yn oes Fictoria mae'n debyg. Llwyddodd Dŵr Cymru i feddiannu'r safle a rwan mae Canolfan Ymwelwyr dau lawr hefo caffi a bwyty wedi agor a chynigir nifer o weithgareddau dŵr megis hwylio, canwïo, bwrddfyrddio ac ati. Felly, bydd yn werth ymweld â'r lle hyd yn oed os nad ydych yn un am hwylio ac ati ond byddwch yn gallu gwylio'r cyfan o'r Ganolfan Ymwelwyr neu mynd am dro o gwmpas y llynnoedd. Dan ni yng Nghaerdydd yn lwcus iawn i gael cymaint o barciau a llecynnau gwyrdd i'n diddanu.

Mae nifer o gerfluniau i'w gweld o gwmpas y ddinas ac yn ddiweddar ychwanegwyd at y casgliad pan ddadorchuddiwyd cerflun o dri chwaraewr rygbi'r gynghrair lawr yn y Bae sef Billy Boston, Clive Sullivan a Gus Risman. Oherwydd hiliaeth yn ystod eu cyfnod fel chwaraewyr adawon nhw Caerdydd a Chymru i chwarae yng Ngogledd Lloegr a dod yn enwog yno ond rwan yn eu dinas enedigol ar ôl yr holl flynyddoedd maen nhw wedi derbyn clod haeddiannol am eu campau ar y cae rygbi. Mae'r cerflun trawiadol i'w weld ar Gei y Forforwyn lawr yn y Bae.

Mae Caerdydd yn tyfu'n gyflym a newid drwy'r amser a bellach mae dros dri chan mil o bobl yn byw o fewn ffiniau'r ddinas a thros ddeugain mil o'r rhain yn siaradwyr Cymraeg. Ar hyn o bryd mae'r cyngor yn adnewyddu'r farchnad dan do ac mae'r cwmni sy wedi prynu hen safle Siop Howells yn bwriadu gweddnewid yr adeilad a rhoi lle o flaen yr hen gapel Bethany yn eu cynlluniau odd yn arfer bod yn rhan o'r hen adeilad. Mae'r capel bellach wedi symud i Riwbeina i adeilad hardd ar Heol Llanisien Fach.

Yn olaf rhaid dymuno'n dda i dîm rygbi Cymru wrth iddyn nhw chwarae yng nghystadleuaeth Rygbi'r byd yn Ffrainc y mis hwn ac am y tro cyntaf mae dau gyd-gapten ar ein tîm sef Dewi Lake a Jac Morgan. Hefyd llongyfarchiadau i Undeb Rygbi Cymru ar eu polisi newydd tuag at y Gymraeg – odd hi'n hen bryd!

# Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd

**Cai Llewelyn Evans - Enillydd Y Fedal Ddrama**

Llongyfarchiadau calonnog i Cai Llewelyn Evans a gipiodd y Fedal Ddrama yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae Cai yn un o'r bobl sy'n siarad fwyaf yn y Senedd, er mai pur anaml y mae rhywun yn ei weld, gan ei fod yn un o'r tîm o Gyfieithwyr ar y Pryd yno. Mae'n byw yn Nhreganna ers blynyddoedd, ar ôl dychwelyd i Gymru wedi cyfnod o fyw yn Siapan lle roedd yn gweithio fel golygydd / newyddiadurwr gyda'r *Japan Times*.

Dyma ran o'r feirniadaeth a draddodwyd gan Steffan Donnelly, ar lwyfan y Pafiliwn Mawr brynhawn dydd Iau: "*Eiliad o Ddewiniaeth* gan Wasabi ydi'r ddrama sy'n teimlo fwyaf cyflawn a chydlynol o'r 26. Mae'n sicr ac yn hyderus yn ei ffurf theatrig gydag uchafbwynt a datguddiad clir sy'n cymryd ni ar siwrne gymhleth ac emosiynol. Stori syml efo ffocws tynn ar berthynas Ceri, hogyn 12 oed niwroamrywiol a'i fam, Alys … Mae *Eiliad o Ddewiniaeth* yn ddrama ddireidus, llawn pathos sydd fwyaf parod am y llwyfan ... rhoddwn wobr Y Fedal Ddrama 2023 i *Eiliad o Ddewiniaeth* gan Wasabi."

Mae *Eiliad o Ddewiniaeth* yn gomedi dywyll sy'n canolbwyntio ar fachgen 12 oed obsesiynol sy'n sylwebu ar bopeth: y gemau pêl-droed y mae'n eu gwylio ar ei iPad; y gemau y mae'n eu chwarae yn erbyn ei hun yn yr ardd; ac ymdrechion gorau ei fam, Alys, i edrych ar ei ôl.

Ymdrech yw hon i ddarbwyllo ei dad absennol, Ger, sydd wedi derbyn swydd fel hyfforddwr pêl-droed yng ngwlad Malaysia, ei fod yn deilwng i fod yn rhan o'i fywyd eto, a hynny drwy ennill cystadleuaeth sylwebydd ifanc y flwyddyn ar S4C.

Ar un lefel, mae'r ddrama'n waith naturiol sy'n canolbwyntio ar y berthynas gymhleth rhwng Ceri a'i fam. Ond mae elfen fetaffisegol i'r ddrama hefyd, gan fod tipyn o'r naratif yn digwydd yn nychymyg Ceri, sy'n gweithredu fel rhyw fath o ddihangfa o'r byd go iawn—byd sy'n rhy greulon ar brydiau i fachgen bach mor wahanol.

Gobaith Cai yw y bydd cyfle i lwyfannu'r ddrama hon rywbryd yn y dyfodol.

Cafodd Cai ei fagu ym Mhontarddulais, ac mae ganddo dair chwaer. Cafodd ei addysg yn Ysgol Bryniago, Pontarddulais, Ysgol y Strade, Llanelli, a Phrifysgol Aberystwyth. Yno enillodd radd MA mewn Llenyddiaeth Ôl-fodern Americanaidd, gan ysgrifennu traethawd hir ar ddramâu August Wilson.

Ar ôl symud yn ôl i Gymru y dechreuodd Cai fynd ati i ysgrifennu gwaith creadigol, gan gael ei brofiad cyntaf ar y radio, drwy ysgrifennu cyfres o sgetsys a gafodd eu darlledu ar y rhaglen *Sgript Slam Gomedi* ar BBC Radio Cymru. Yna, ysgrifennodd ddwy ffilm fer a gafodd eu cynhyrchu drwy raglen *It's My Shout* a'u darlledu ar S4C.

Yn ystod y cyfnod hwnnw hefyd, roedd Cai yn aelod o Grŵp Dramodwyr Newydd Theatr Genedlaethol Cymru, a chafwyd darlleniadau byw o'r



ddrama *Bwyd Ci* a ysgrifennwyd ganddo, yn Theatr y Sherman a Chanolfan y Mileniwm. Ar hyn o bryd, mae'n cydweithio â Chwmni Theatr Bara Caws ar brosiect comedi.

**Urddo Glenys Llewelyn**



Llongyfarchiadau i Glenys Llewelyn ar gael ei hurddo i'r Orsedd fore Llun yr Eisteddfod. Mae rhai'n ei hadnabod fel aelod o bwyllgor y *Dinesydd*, ac yn cyfrannu erthyglau'n rheolaidd. Glenys wnaeth sefydlu Eisteddfod Caerdydd, a hi yw ysgrifennydd yr Eisteddfod. Mae hefyd yn ysgrifennydd Gŵyl Cerdd Dant Caerdydd 2023, blaenor ac ysgrifennydd cyhoeddiadau yng Nghapel Salem Treganna, ysgrifennydd Clwb Canna, llywodraethwr yn Ysgol Pencae, aelod blaengar o Bwyllgor Rhanbarthol yr Urdd Caerdydd a'r Fro a chynorthwy-ydd gwirfoddol Eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd yn y rhanbarth. Mae'n aelod o Lys a Chyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, yn aelod o Banel Grantiau Llyfrau Cymraeg y Cyngor Llyfrau, gweinyddydd Merched Plastaf, gweinyddydd Ysgol Ddawns Miele ac yn gweithio'n llawn amser fel cyfieithydd yn y Senedd. Yn ei hamser sbâr (!), mae wrth ei bodd yn mynd i'r theatr, mynd am dro, teithio a mynd i ddigwyddiadau cymdeithasol a'u trefnu. Mae'n wreiddiol o Afonwen, Eifionydd, ond yn byw yng Nghaerdydd ers blynyddoedd, gyda'i gŵr, George a'i merch, Fflur.

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn y Genedlaethol

Pleser arbennig oedd ymweld â'r Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mae'r pentref ar ddarn o'r Maes, ar ffurf cylch gyda maint tua hanner cae pêl-droed. Ar ffin y cylch mae amryw o stondinau yn cyflwyno nodweddion nifer o sefydliadau, gyda phobl frwdfrydig a hynaws yn barod iawn i drafod eu cynnyrch a'u bwriadau.

Ar ganol y cylch mae dwy babell sy'n cyflwyno swyddogaeth wahanol ond allweddol i ffyniant y pentref. Yn y Sfferen, sy'n dal tua 100 o gynulleidfa, ceir cyflwyniadau, trafodaethau, darlithoedd ar amrywiaeth o destunau o bwys i arbenigwyr a lleygwyr, megis, amaeth a bwyd, dulliau fforensig at ddatrys trosedd, newid hinsawdd, anturiaethau'r gofod, anafiadau chwareuon, dementia. Mae'r Lloeren yn fangre awyr agored ond dan do rhag glaw, lle trefnir heriau llaw a llygad i arbrofwyr o bob oed. Rhwng y Sfferen a'r Lloeren mae modd diwallu gallu a chwilfrydedd nifer fawr.

At fy nant i, roedd sesiwn arbennig o ddiddorol dan y teitl, Y Tri Chawr, sef, Richard Price, William Morgan a Griffith Davies, y tri wedi gwneud gwaith arloesol a pharhaol dros dair canrif yn ôl; mae eu mathemateg yn dal yn greiddiol i'r diwydiant yswiriant. Yn sgîl hyn oll daeth proffesiwn newydd i fodolaeth, sef, yr actwari. Bu'r sesiwn yn gyfle i Haydn Edwards gyfeirio at ei brofiadau wrth lunio'i lyfr diweddar ar fywyd Griffith Davies, Arloeswr a Chymwynaswr (Gwasg Prifysgol Cymru).

Yn y Sfferen hefyd cafwyd y Brif Ddarlih, 'Profion Genetig ar gyfer Byd Mwy Diogel' gan Dyfrig Huws.

Da oedd gweld bod enillwyr mewn cystadlaethau, dwy erthygl ac un ddyfais. Mae cynnwys y cyflwyniadau i'w weld yn *Cyfansoddiadau a Beirniadathau*. Ewch amdanynt.

Diolch yn fawr i'r is-bwyllgor GaTh lleol am sicrhau profiad difyr yn y Pentref.

*Neville Evans*

## Yr Athro Alan Shore - Enillydd Y Fedal Wyddoniaeth a Thechnoleg

Un sydd wedi ail-ymgartrefu yng Nghaerdydd yn ddiweddar yw'r Athro Alan Shore a enillodd y Fedal Wyddoniaeth a Thechnoleg yn Llŷn ac Eifionydd. Mae'r fedal yn cael ei chyflwyno yn flynyddol er mwyn cydnabod cyfraniad oes unigolyn mewn maes gwyddonol a thechnolegol drwy'r Gymraeg. Llongyfarchiadau mawr iddo.

Wedi graddio mewn mathemateg ym Mhrifysgol Rhydychen trodd i faes peirianneg electronig. Fe'i penodwyd yn Athro mewn Peirianneg Electronig ym Mhrifysgol Bangor yn 1995, lle y bu'n arwain ac yn datblygu gwaith ar Ffotoneg ac Optoelectroneg. Dyma faes heb seiliau i'w thrin a'i thrafod trwy gyfrwng y Gymraeg ond llwyddodd yr Athro Shore i feithrin gwyddonwyr i osod y seiliau cadarn angenrheidiol ac i hyrwyddo eraill i ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith. Mae wedi cyfrannu'n gyson i waith Academi Ffotoneg Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yr Eisteddfod Genedlaethol, ac mae'n Gymrawd gweithgar a blaenllaw o Gymdeithas Ddysgedig Cymru gan sicrhau lle'r Gymraeg yn y gweithgaredd. Ef sy'n trefnu darlith flynyddol y Gymdeithas ac mae'n sicrhau fod hon yn ddarlith wyddonol bob yn ail flwyddyn.

Mae'r Fedal eleni yn un arbennig gan iddi gael ei chynhyrchu trwy ddefnyddio argraffu tri dimensiwn o fetalau.

Yn wreiddiol o Dredegar Newydd, rhaid cofio hefyd iddo ddechrau dysgu'r Gymraeg pan yn gweithio ar ei astudiaethau ôl-raddedig yng Nghaerdydd. Enillydd haeddiannol yw wir. Dyma rail o'r llinellau o gerdd Guto Dafydd i gyfarch yr Alan Shore ar ei lwyddiant:

Dewisaist ddeall, dewisaist wella,
dewisaist rannu dy ddealltwriaeth â'r byd,
er dysg ac er defnydd. Gosodaist lwyfan
i eraill i ddehongli,
daethost â'th oleuni, yn ffotonig, yn eiconig
i'n hiaith ni. Diolch iti.





## Merched Plastaf

Llongyfarchiadau mawr i Ferched Plastaf a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth “Côr Ieuenctid o dan 25 oed” mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn. Dechreuodd rhai o’r merched ganu fel parti bach o ferched ifanc iawn yn cystadlu gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd Caerffili, ac mae nhw wedi tyfu i fyny gyda’i gilydd ac yn ffrindiau agos iawn. Mae’r côr wedi ehangu ers hynny ac yn 30+ o aelodau erbyn hyn, yn amrywio rhwng 15 a 19 oed, gyda rhai yn dal yn aelodau er eu bod wedi gadael yr ysgol. Mae’n rhaid nodi a rhoi clod i un o’r aelodau sydd, yn ogystal â chanu, yn cyfeilio hefyd, sef Erin Jardine. Mae Erin yn camu’n rhwydd rhwng y côr a’r piano (ac weithiau’r delyn!), felly diolch yn fawr Erin, am bopeth. Diolch, hefyd, i Lowri Griffiths am ei help yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. A diolch enfawr i Caryl Ebenezer am ei harweiniad cadarn a hawddgar bob amser. Mae’r merched wrth eu boddau gyda thi wrth y llyw, ac yn edrych ymlaen at flwyddyn arall o gyd-ganu a chystadlu.

Da iawn, hefyd i‘r ddau ensemble, sef Merched Plastaf Iau a Merched Plastaf Hŷn a fu’n cystadlu ar yr Ensemble Lleisiol Agored.



## Yr Alltudion

Llongyfarchiadau i’r Alltudion ar ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth Parti Llefaru hyd at 16 mewn nifer. Parti sy’n cael ei arwain gan Hanna Llŷn yw’r Alltudion. Mae rhai o’r aelodau’n hen gyfarwydd â chystadlu mewn eisteddfodau, ac ambell un arall yn fwy newydd i’r her. Ond mae pawb yn mwynhau ac yn cyd-dynnu’n ardderchog. Mae’n siwr mai rhyw 5 sesiwn ymarfer gafwyd lle roedd pawb yn bresennol, gydag ambell un yn ymarfer ar Facetime hyd yn oed! Er hynny, cafwyd llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, gan gipio’r drydedd wobr mewn cystadleuaeth gref o 14 o bartïon, gyda Hanna’n camu i’r llwyfan i glywed y canlyniad gyda’i mam, Rhian, oedd wedi hyfforddi’r parti a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth, sef Mamau Genod Llŷn.



*Hanna Llŷn*



Llongyfarchiadau i Hanna hefyd a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth Llefaru Unigol 21 oed a throsodd. Er mai hogan o Lŷn yw Hanna, mae’n byw yn y brifddinas bellach, ac mae’r Alltudion yn falch iawn mai’r alltud yma sy’n eu harwain. Da iawn ti!

# Talyrnau
# a'r Brifddinas

**Llwyddiant ein beirdd ar *Y Talwrn* yn yr Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd**

Roedd y Babell Lên yn llawn b'nawn dydd Sadwrn cyntaf yr Eisteddfod ym Moduan ar gyfer Ffeinal *Y Talwrn*, BBC Radio Cymru rhwng Dros yr Aber (o Gaernarfon a Chaerdydd) a'r Ffoaduriaid (o Gaerdydd) Wedi gornest gyffrous, y sgôr derfynol oedd Dros yr Aber 75.5 Y Ffoaduriaid 75. Mae Carwyn Eckley o Dros yr Aber yn byw yn Grangetown.

Llongyfarchiadau hefyd i Llŷr Gwyn Lewis a Llio Maddocks o'r Ffoaduriaid. Llŷr enillodd Dlws Coffa Dic Jones am y gerdd orau ar un o'r mesurau caeth, a Llio enillodd Dlws Coffa Cledwyn Roberts am delyneg orau'r gyfres.

Cofiwch hefyd y bydd *Y Talwrn* yn recordio'r gyfres nesaf ar leoliad ac os hoffai cymdeithas neu glwb estyn gwahoddiad i'r gyfres ddod draw i'ch ardal chi, e-bostiwch ytalwrn@bbc.co.uk

**Talwrn Tafwyl**

Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 15fed, fe fu BBC Radio Cymru yn recordio'r *Talwrn* yn Tafwyl. Roedd hi'n braf iawn bod nôl yn yr ŵyl ac roedd pabell Llais yn orlawn ar gyfer y digwyddiad. Ceri Wyn Jones oedd y Meuryn a'r timau oedd yn cymeryd rhan oedd beirdd Caerdydd a beirdd Caerfyrddin A'r tim lleol a orfu ond dim ond o hanner marc.

Diolch i drefnwyr Tafwyl am ein croesawu i Barc Bute, a diolch i bawb ddaeth draw ar y diwrnod.







Uchod: Llio Maddocks, enillydd Tlws Coffa Cledwyn Roberts a Llŷr Gwyn Lewis enillydd Tlws Coffa Dic Jones

Ar y chwith: Y ddau dîm a fu'n cystadlu yn y talwrn yn Tafwyl gyda'r meuryn Ceri Wyn.

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***


**ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif @DinesyddCdydd**

**ac ar Facebook drwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Ar y bore olaf ym mis Mai cafwyd sgwrs ddiddorol gan un o'n haelodau, sef y Parchg Gwilym Wyn Roberts. Bu'n son am Arthur Russell Wallace, gŵr a anwyd yn Llanbadoc, Mynwy, yn 1823 a marw yn Dorset yn 1913. Roedd Wallace yn gefnogol i'r iaith Gymraeg ac i hunan-lywodraeth i Gymru. 'Roedd hefyd o blaid addysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn Gwyddoniaeth.

Cyhoeddodd Wallace bapur yn 1858 i'r Gymdeithas Frenhinol ar y cyd â darnau o waith Darwin. 'Roedd Wallace wedi dyfalu yr un ddamcaniaeth am esblygiad â Charles Darwin. Bu Wallace a Darwin yn ffrindiau am 30 mlynedd.


*Wallace*

Ym mis Mehefin cafwyd cyfarfod cymdeithasol, mwynhawyd y mefus a'r hufen, brechdanau a chacen.

I orffen cyfarfodydd 2022/23, daeth Dr Gethin Matthews a'i wraig Rachel Mathews atom. Uwch darlithydd Hanes ym Mhrifysgol Abertawe yw Dr Matthews, a bu'n gweithio gyda disgyblion o chwech Ysgol Uwchradd yn y De Ddwyrain, Buont yn ymweld â chofebau Rhyfel yn eu hardaloedd, yna, gyda Sion Thomas Owen creodd pob ysgol eu cofebau eu hunain, cofebau Heddwch yn hytrach na chofebau Rhyfel. Roedd un ysgol wedi ysgrifennu 'Gwell gobaith a chariad na chasineb ac angau', yn lle 'Gwell angau na gwarth', a oedd ar y gofeb rhyfel, Roedd llawer o aelodau yn awyddus i fynd i weld y gwaith oedd yn cael eu arddangos yn adeilad Y Pier Head yn ystod mis Gorffennaf.

Wedyn soniodd Rachel Matthews, swyddog Cymunedol Oedolion Menter Caerdydd, am weithgareddau mae'n trefnu i oedolion, gan gynnwys cyngerddau Live Music Now yng nghapel Beulah Rhiwbeina, sesiynau ffitrwydd gydag Anna Reich yng Nghanolfan Soffia, a cherdded ym Mharc Biwt. Hefyd mae'n trefnu sgyrsiau misol ar Zoom.

Bydd cyfarfodydd Aelwyd Hamdden yn ail-ddechrau ar fore Mercher, 13 Medi am 11 y bore, yng nghapel Bethel, Heol Y Deri Rhiwbeina, Mae croeso i aelodau newydd i ymuno gyda ni. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a sgwrs gan Elisabeth Gilpin, fydd hwn ac yna bore Cymdeithasol ar 27 Medi. Wedyn cawn fore cerddorol yng nghwmni Tristan a Sian Francis ar Hydref 11.


**YSGOL GYFUN GYMRAEG PLASMAWR**

Awst 2023

Lleolir Ysgol Plasmawr yn y Tyllgoed yng ngogledd orllewin Caerdydd. Mae gan yr ysgol dros 1200 o ddisgyblion a dros 120 o staff.

Rydym yn recriwtio ar gyfer y swyddi canlynol

- Swyddog Gweinyddol
- Technegydd Gwyddoniaeth
- Cynorthwy-ydd Dysgu

Am rhagor o fanylion, swydd ddisgrifiad a ffurflen gais cysylltwch â Mrs Sandra Jones trwy e-bostio SJones@ysgolplasmawr.cymru

# Colofn Natur



## *Creaduriaid Caerdydd*

### *Bronwen y Dŵr*

**Gethin Jenkins-Jones**

Ar draws Caerdydd (ac ymhellach ledled y byd) rydym yn lwcus bod yna wledd o gynefinoedd hardd a naturiol i ni eu mwynhau. O'r rhain, yn gyffredinol mae pobl yn dueddol o fod yn arbennig o hoff o gynefinoedd efo dŵr. Boed yn bwll bach, llyn, afon neu fôr, mae dŵr yn aml yn tawelu'r meddwl a'r corff, ac mae nifer helaeth ohonom yn fodlon teithio'n bell am y fath heddwch. I chi sy'n hoff o gerdded ar hyd y Taf, heddiw rwyf am ffocysu ar aderyn sydd mwy neu lai ond i'w ffeindio yna yn ein dinas - Bronwen y Dŵr.



*Llun: Imran Shah*

Mae Bronwen y Dŵr yn sicr yn aderyn gweddol unigryw ym Mhrydain, wedi hen esblygu i ffwrdd o'i pherthnasau agosaf sef teulu'r fronfraith. Maent yn adar gweddol blwmp, yn bennaf yn siocled-brown efo gwddf a bron wen, ac mae yn tueddu i bobio lan a lawr (fel llawer o adar eraill glannau'r dŵr). Dwi o hyd yn hoff o'u gweld ar y Taf, gan nad yw'n rhy hawdd eu gweld yn dda. Yn aml maent yn weddol guddliw ymysg ochrau mwdlyd a charegog yr afon, ac yn llawer amlach rwyf ond yn eu gweld yn gwibio lan neu lawr yr afon, yn sicrhau bod adar eraill yn cadw draw o'u hoff ardaloedd bwydo. Eu prif fwyd yw pry-maen, sy'n treulio rhan fwyaf o'u bywyd o dan wyneb y dŵr. I'w dal mae'r aderyn yma yn plymio i mewn i oerfel yr afon er mwyn chwilio amdanynt rhwng y creigiau. Mae yna sawl dogfen natur sy'n dangos hyn, ac sydd hefyd yn dangos bod lliw eu plu yn newid i fod yn arian sgleiniog dan y dŵr. Mae ganddynt drydydd amrant tenau sydd, wrth gau, yn eu galluogi i weld dan y wyneb. Er hynny, dwi 'n methu dychmygu bod chwilio am fwyd yn hawdd yn ystod llifoedd mochedd a ffyrnig wedi stormydd y gaeaf!

O'r holl arwyddion natur mae pobl yn disgrifio fel arwydd pendant cyntaf y gwanwyn, gallaf yn sicr weld pam fod rhai yn pwyntio at yr aderyn yma. Yn gyfres o chwibanau a gwichian dwfn, rhythmig, maent yn canu o ganol mis Chwefror, yn aml pan mae rhew ac eira yn cydio'n dynn ar weddill byd natur. Os ydych yn cyrraedd pont wrth gerdded ar hyd nant fechan rhywle yng Nghymru, drychwch oddi tani i weld a oes nyth yr aderyn yno, sy'n edrych fel pelen o fwswgl a gwair. Ynddi byddent yn magu 3-4 cyw, a fydd yn gadael y nyth wythnosau'n ddiweddarach fel fersiwn llwyd o'u rhieni. Nid yw eu nythod bob amser mor hygyrch, fodd bynnag. Tua degawd yn ôl gwnaeth fy nhad a minnau fonitro nyth ar y Taf er mwyn casglu data gwyddonol. Dwi'n cofio bod yn nerfus ar yr ysgol fach roedd rhaid ei dringo i fynd at y nyth, efo llif nerthol y dŵr yn rhuthro dan fy nhraed. Diolch byth wnes i ddim torri unrhyw esgyrn dros yr aderyn yma.

Heddiw mae Bronwen y Dŵr i'w gweld ar hyd yr afon Taf, ac wrth feddwl yn ôl i fy mhlentyndod dwi o'r farn bod eu niferoedd wedi cynyddu yn ystod y degawd diwethaf. Dwi'n tybio hefyd nad oedden nhw'n bresennol mewn niferoedd da o gwbl yn y ganrif ddiwethaf. Wedi cychwyn y chwyldro diwydiannol ddwy ganrif yn ôl, mi fyddai'r Taf wedi bod yn hynod o fudr a gwenwynig, a byddai hyn wedi rhoi straen ar y boblogaeth leol. Yn ffodus maent wedi dychwelyd, ond oherwydd llygredd amaethyddol dwi'n tybio nad yw eu niferoedd wedi'u hadfer yn llwyr eto. Maent hefyd i'w gweld yn y rhan fwyaf o afonydd y wlad, efo'r boblogaeth yn ddibynnol ar yr ecosystem leol. Wrth asesu'r afon Wysg rhai blynyddoedd yn ôl i Gyfoeth Naturiol Cymru, cefais syndod na welais yr aderyn yma am tua 50 cilomedr ar hyd glan yr afon, er bod adar eraill o gwmpas a oedd yn awgrymu ecosystem ffafriol. Roedd yn braf felly gweld dros hanner cant cyn cyrraedd y tarddle!

Er nad yw Bronwen y Dŵr yn aderyn cyfarwydd i'r mwyafrif, yma yng Nghaerdydd mae miloedd o bobl yn eu pasio pob dydd. Maent yn ddeniadol, ond yn bwysicach fyth, yn arwydd o afonydd a nentydd glân, a dylai hynny o hyd fod yn achos i wenu wrth eu gweld.


## TIWTOR MATHEMATEG

**Llongyfarchiadau i'm myfyrwyr ar eu llwyddiant ysgubol yn TGAU eleni: 4A*, 1A, 1B.**

Tiwtor graddedig llwyddiannus iawn gyda dros 30 mlynedd o brofiad dysgu Mathemateg i fyfyrwyr o 11 oed hyd **TGAU** a **Safon Uwch**.

Cynigir cyrsiau adfer arbennig i fyfyrwyr sydd wedi dioddef o ran eu cynnydd Mathemategol yn ystod y cyfnod clo. Defnyddir **Zoom** ar hyn o bryd ond cynhelir y gwersi yn **Penylan** os bydd angen.

Manylion pellach: Gwilym Wyn **07 968 463 737**
neu **serenagwill@btinternet.com**

# Gair gan yr Urdd
# Agoriad Gwersyll Pentre Ifan

Bydd gwersyll amgylcheddol a lles newydd yr Urdd yn agor diwedd mis Medi. Mae gwersyll Pentre Ifan wedi'i leoli yn Felindre Farchog, Sir Benfro. Dyma'r gwersyll cyntaf o'i fath yn y DU sy'n rhoi blaenoriaeth i'r amgylchedd a lles emosiynol pobl ifanc mewn un profiad preswyl hudolus.

Mae Pentre Ifan yn cynnig dihangfa ddigidol i bobol ifanc, a fydd yn eu hannog i gysylltu â'u tirlun amgylcheddol a diwylliannol a phrofi ffordd o fyw sy'n fwy cynaliadwy. Mae'r gweithgareddau wedi'u seilio ar nod yr Urdd i addysgu cynaladwyedd, natur, amgylchedd, lles ac wrth gwrs yr iaith a diwylliant Cymraeg. I ddysgu mwy, dilynwch wersyll Pentre Ifan ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Gwersylloedd Haf a llwyddiant Cronfa i Bawb**

Bu gwersylloedd Glan-llyn, Llangrannog a Chaerdydd yn llawn hwyl a bwrlwm dros yr haf wrth i gannoedd o blant a phobl ifanc gael y cyfle i fwynhau, ymlacio a gwneud ffrindiau newydd am oes yng ngwersylloedd haf eiconig yr Urdd.

Roedd dros 100 o'r rhain yn blant a phobl ifanc gafodd y cyfle i fynychu am ddim diolch i Gronfa Cyfle i Bawb yr Urdd. Mae Cronfa Cyfle i Bawb yn gynllun arbennig sydd yn cynnig cyfle i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi neu dan amgylchiadau heriol i fynychu un o wersylloedd haf yr Urdd.





**Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd i deithio draw i Alabama**

Bydd myfyrwyr o Brifysgol Caerdydd a fu'n rhan o Neges Heddwch yr Urdd eleni yn teithio draw i Alabama mis yma. Bydd y criw yn cael cyfle i ddysgu mwy am hanes Hawliau Sifil yn Alabama, ac i ddysgu am y gwaith sy'n cael ei wneud yno heddiw i sicrhau hawliau dynol cyfartal. Bydd y daith yn datblygu partneriaeth Cymru a Birmingham, partneriaeth sy'n bodoli ers 1963.

***Lluniau o wersyll Llangrannog***

# Hen rifynnau o'r Dinesydd

Rydym yn ddiolchgar i Penri Williams am ei gymwynas werthfawr yn ystod y misoedd diweddar. Erbyn hyn, os trowch i wefan *Y Dinesydd* sef dinesydd.cymru, cliciwch 'Rhifynnau' ac fe welir pob un ohonynt, heb law am un sef rhifyn naw. Rhif 8 yw Ionawr 1974 a rhif 10 yw Mai 1974.

Felly yn arbennig i chi'r ffyddloniaid sydd eisoes wedi helpu gyda hwn, Rhiannon Evans ac Eluned Edwards yn lleol, chi sydd wedi darllen y cyfan ers hanner canrif – a wnewch chi bob ymdrech i chwilio os oes rhifyn 9 gyda chi rhywle yn cuddio mewn rhyw focs ac ati?

Basai'n wych os caiff Penri gyfle i roi hwn ar y wefan. Bydd hefyd set gyflawn o'r cyfan sef copïau caled maes o law yn Llyfrgell Cathays – heb law wrth gwrs am rif naw. Gwnewch eich gorau i ddarganfod un rhifyn colledig os gwelwch yn dda!

Gyda llaw, mae gen i nifer dda, hynny yw, gormod o hen gopïau nas gwerthwyd yn y siopau ers 2017. Dydw i ddim eisiau eu taflu nhw ffwrdd megis ond bydd rhaid gwneud yn y diwedd. Os oes syniadau gyda chi am sut medrwn eu defnyddio oherwydd mae cyfoeth o gynnwys ynddynt fel gwyddoch yn dda – anfonwch eich awgrymiadau ymlaen yma os gwelwch yn dda: eirianagwilym@gmail.com Diolch i bawb.

**Diolch yn fawr**

**Dymuna pwyllgor *Y Dinesydd* ddiolch yn fawr iawn i CRICC am eu rhodd hael tuag at gynnal ein papur bro.**




# GŴYL CERDD DANT CAERDYDD 2023

**Dydd Sadwrn, 11 Tachwedd 2023.**

**Rhestr Testunau**
Cofiwch fod y Rhestr Testunau'n fyw ar Wefan Cymdeithas Cerdd Dant Cymru: Cymdeithas Cerdd Dant Cymru - Gŵyl Cerdd Dant (cerdd-dant.org), a bod copïau print ar gael hefyd. Cysylltwch ag aelod o'r Pwyllgor os hoffech gopi.

**Digwyddiadau**
Mae pob digwyddiad yn codi ymwybyddiaeth o'r Ŵyl yn ogystal â chodi arian. Mae hefyd yn gyfle i gymdeithasu a thrafod, fel ar stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol .

Diolch yn fawr i bob un ddaeth heibio, fu'n helpu ar y stondin, wnaeth berfformio, wnaeth gasglu Rhestr Testunau, fu'n tynnu sylw at yr Ŵyl, ac a fu'n prynu a gwerthu nwyddau. Mae pob un gair o gefnogaeth, fel pob ceiniog goch, wir yn cael ei werthfawrogi.

**I'r dyddiadur**
Noson Bingo'r Beirdd ar 14 Medi yn y Tabernacl, yr Ais.
Noson yng Nghwmni Steffan Rhys a Mared ar 7 Hydref yn "Y Dosbarth".
Sioe Ffasiwn ar 27 Hydref yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina.

**Nwyddau**




Rydym yn gwerthu nifer gyfyngedig o nwyddau i godi arian a nodi dyfodiad yr Ŵyl i Gaerdydd, gan gynnwys yr enwog *'Jin Cerdd Dant'*, sef jin blas leim a teim, sy'n eithriadol o flasus. Mae gennyf hefyd ganhwyllau Cerdd Dant wedi'u dylunio gan gwmni Milltir Sgwâr, a matiau diod yr Ŵyl i'w rhoi o dan eich gwydr jin. Cofiwch, hefyd am y raffl "Tant i Bum Cant", lle gallwch brynu tant yn y gobaith o ennill un o'r gwobrau gwych sydd ar gael, gan gynnwys llety dros benwythnos yr Ŵyl yn y "Cartws", yr Eglwys Newydd; darn o gelf gan Lowri Davies; gemwaith gan Mari Thomas; sesiwn steilio gyda Huw Ffash ar Pnawn Da; 2 docyn i gêm Cymru v Croatia ar 15 Hydref. Cysylltwch ag aelod o'r pwyllgor os hoffech chi brynu nwyddau, neu os hoffech werthu ar ein rhan!




**Cyfrannu**
Os hoffech chi roi cyfraniad at yr Ŵyl ac yn methu dod i un o'r digwyddiadau, mae'n hawdd iawn cyfrannu ar-lein drwy ddilyn y linc i'r dudalen JustGiving:

Crowdfunding to Gŵyl Cerdd Dant Caerdydd 2023 on JustGiving

Os oes gennych unrhyw gwestiwn, neu os hoffech gysylltu â'r Ŵyl mewn unrhyw ffordd, y cyfeiriad e-bost i gysylltu â ni yw GCDCaerdydd2023@gmail.com. Cyfeiriad e-bost yr ysgrifennydd yw: glenys.llewelyn@sky.com.
Rydym yn edrych ymlaen at y cythraul canu, y cystadlu a'r hwyl. Deufis i fynd ac mae'r cyffro'n codi ...




***Ensemble Iau Merched Plastaf yn canu o flaen y stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan.***
***Llun:Caryl***

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Er nad oedd cyfarfodydd ffurfiol y Gymdeithas yn ystod Gorffennaf ac Awst, manteisiodd nifer dda o'r aelodau i gyfarfod yn y Deri ar fore Llun Gorffennaf yr 17 ac Awst yr 21 am baned a sgwrs.

Roedd yn gyfle gwych i gyfarfod a sgwrsio am y digwyddiadau diweddar gan gynnwys arlwy'r eisteddfod. Braf oedd gweld Falmai Griffithas (un o'r Llywyddion Anrhydeddus) yn ôl gyda ni wedi ei damwain diweddar.

Roedd yr aelodau'n edrych ymlaen at gychwyn ffurfiol y Gymdeithas ar Nos Lun Medi'r 18, gyda Tim Hartley yn siarad am "Barri, y BBC a phel-droed" yng Nghapel Bethel Rhiwbeina.

# Dathlu'r 50 yn Tafwyl

Daeth tua 60-70 ynghyd ar fore Sul, 16 Gorffennaf, 11.30-12.30 yn Tafwyl ym Mharc Bute i ddathlu'r ffaith bod *Y Dinesydd* yn hanner cant oed eleni.

Roedd y trenfniadau yng ngofal Manon Phillips a John Hayes ac arweiniwyd y gweithgareddau cyhoeddus gan Gwilym Dafydd.

Cafwyd dwy gân gan Delwyn Siôn a chanwyd dau bennill o 'Tydi a Roddaist' gan fod Alun Guy yno i dorri'r gacen 50. Wel, wnaeth e ddim yn y diwedd gan bod eraill wedi gwneud ond arweiniodd Alun y ffordd i'r cefn tua 12.15 a sawl un yn ei ddilyn!

Y cynllun fel petai oedd ein bod yn gwahodd pobol *Y Dinesydd* i'r blaen a phawb yn cael cyfle i ddweud gair byr. Ac i raddau helaeth dyna ddigwyddodd. Dechreuwyd gyda'r pwyllgor yna cadeiryddion, golygyddion, colofnwyr er doedd dim amser i gyflwyno dosbarthwyr lleol ein papur bro.

Cofiaf esbonio cyn dechrau wrth Wyn James beth oedd i ddigwydd parthed y pump categori. Nododd Wyn ei fod yn perthyn i bob categori. Eisteddodd ar y llwyfan ac roedd rheswm digonol ganddo i aros yno tan y diwedd! Mae Wyn wedi gwisgo sawl het gwahanol ers canol y 90au – ein diolch iddo.

Wrth arwain hyn ron i'n teimlo bod yr amser yn hedfan ac mae'n siwr bod rhyw 15-20 yno wedi dweud gair o'r llwyfan neu'r gynulleidfa.

Ces i'r agraff bod pawb yno yn mwynhau. Roedd e'n gyfarfod digon hwyliog a'r gyfrinach oedd na siaradodd unrhywun yn rhy hir – gwibiodd awr hapus heibio mewn dim o dro. Af i ddim i enwi pawb a ddywedodd gair ond gwerthfawrogwyd pob cyfraniad a sylw unigol.


*John Hayes ac Alun Guy*




# Clwb Canna

**Noson wych arall!**

Fel rhan o ŵyl 'ymylol' Tafwyl eleni, cafodd Clwb Canna wahoddiad i drefnu gig ar y nos Wener, a sôn am fwynhau. Roedd y clwb yn falch iawn o gael cydweithio â Tafwyl, a manteisio ar y cyhoeddusrwydd ymlaen llaw, achos gwerthwyd yr holl docynnau cyn i'r clwb eu hysbysebu'n iawn, hyd yn oed.

Am y tro cyntaf yn ei hanes, symudwyd i leoliad ychydig yn wahanol. Cynhaliwyd y gig yn Neuadd St Catherine ar Heol y Brenin. Roedd y gynulleidfa'n cael eu cyfarch yn yr ardd wrth gyrraedd gan aelodau o'r Gerddorfa Ukelele, a dyna osod y naws ar gyfer gweddill y gig – noson hwyliog, braf, gyda chyfle am pizza ar y lawnt tu allan. A diolch i aelodau o bwyllgor yr Ŵyl Cerdd Dant am redeg y bar.

Agorwyd y noson gan Bronwen Lewis, ac roedd y gynulleidfa yn ei llaw o'r eiliad y camodd ar y llwyfan. Mae hon yn berfformwraig roedd pawb yn amlwg yn ei charu. Mae'n dalentog a hwyliog, ac yn gwneud i bawb deimlo'n gartrefol. A dyna'r gair – roedd fel bod mewn parlwr ffrynt yn rhannu storis a phrofiadau doniol hefo ffrind da.



Yna, daeth Alis Glyn i'r llwyfan. Pwy fyddai'n credu mai merch ifanc 16 oed sy'n sgwennu ei chaneuon ei hun yw Alis. Waw! Mae 'na ddyfodol disglair iawn o flaen hon. Am lais, am allu, am dalent. Roedd y dorf gyfan wedi'i swyno ganddi. Ond be' sy'n ei gwneud yn fwy gwych yw'r ffaith ei bod yn berson hawddgar, hyfryd sydd mor ddiymhongar. Arbennig iawn wir.

I gloi'r noson, cafwyd ail set gan Bronwen Lewis, ac eto, roedd yn hwyliog, yn cofleidio'r gynulleidfa ac yn gwneud yr holl ddigwyddiad yn rhywbeth cartrefol lle roedd pawb yn mwynhau. Talent arall nad yw'n cael ei gwerthfawrogi hanner digon, yn gymysgedd o'r gwreiddiol, yr hen ffefrynnau a llwyth o straeon y gallech wrando arnyn nhw am oriau.

Diolch i'r artistiaid, a'r gynulleidfa am bob cefnogaeth i Glwb Canna.

Ar 27 Hydref, cynhelir gig gyda Mei Gwynedd a Band Tŷ Potas gyda chefnogaeth Lo-Fi Jones, enillwyr Brwydr y Bandiau Gwerin 2023 yn y Clwb Rhyddfrydol, Treganna. Bydd tocynnau ar werth o Siop Caban, Pontcanna neu drwy Ticketsource yn ôl yr arfer. Cadwch eich llygaid ar agor.

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

**Mae'n braf rhoi sylw i ddau o dimau merched Clwb Cymric a sefydlwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac sy'n mynd o nerth i nerth.**

### Pêl-rwyd Clwb Cymric



Sefydlwyd cangen pêl-rwyd Clwb Cymric yn 2017. Ers hynny mae'r clwb wedi tyfu a sefydlu ei hun yng Nghynghrair Pêl-rwyd Caerdydd ac wedi ennill pedwar dyrchafiad yn olynol. Bellach mae gan y clwb dros 40 o aelodau o Gymry Cymraeg ifanc y brif ddinas.

Y tymor diwethaf am y tro cyntaf roedd gan Cymric dri thîm. Y tîm cyntaf yn y bedwaredd adran, yr ail dîm yn y seithfed adran a'r tîm cymdeithasol yn cystadlu mewn cynghreiriau cymdeithasol Caerdydd. Roedd yr ail dîm yn wynebu ychydig o her o'r cychwyn, yn gorfod sefydlu tîm newydd yn un o'r adrannau mwyaf cystadleuol. Llwyddom i ddod yn chweched gan ennill lle parchus yng nghanol y tabl. Ar ôl blwyddyn o gyfarwyddo â'n gilydd, yn sicr y flaenoriaeth tymor nesaf yw dyrchafiad.

Cafodd y tîm cyntaf dymor i'w drysori. Sicrhaodd y tîm bencampwriaeth y bedwaredd adran gan sicrhau dyrchafiad i'r drydedd adran gan fynd yn ddi-guro trwy'r tymor. Chwaraewyd 22 gêm, a bu'r merched yn fuddugol mewn 21 gem a chafwyd un gêm gyfartal.

Bydd ymarferion a threialon yn ailgychwyn mis Medi ar nosweithiau Mawrth. Croeso i chi gysylltu gyda'r clwb trwy ei chyfrif instagram @pelrwydcymric.

*Megan Price*

### Clwb Hoci Cymric

Ym 2012 daeth criw at ei gilydd er mwyn cychwyn chwarae hoci yn yr iaith Gymraeg. Ers hynny, mae'r clwb wedi tyfu o fod yn griw o ffrindiau i garfan o dros 30, sydd yn ffynnu o flwyddyn i flwyddyn.

Beth well i ddathlu degawd o Hoci Cymric nag ennill dyrchafiad i Adran 1, Cynghrair Hoci De Cymru. Dyma'r tro cyntaf i'r merched gyrraedd yr adran yma, ac rydym yn edrych ymlaen yn arw at yr her newydd tymor nesa.

Daeth y Clwb yn agos iawn i gyrraedd rownd derfynol Tlws Hoci Cymru gan golli yn y rownd gynderfynol yn erbyn enillwyr y gystadleuaeth sef tîm Eglwys Newydd 3. Y tymor diwethaf chwaraeodd Hoci Cymric 19 gêm gan ennill 15, dwy gêm gyfartal a dim ond colli dwy. Enillwyd y gynghrair i ffwrdd ym Mannau Brycheiniog o dair gôl i ddim, gyda thair gêm yn weddill! Sgoriwyd 54 gôl a dim ond ildio 22; y perfformiad gorau yn amddiffynnol o bawb yn yr ail gynghrair.

Felly, ymlaen i Gynghrair 1 ar gyfer tymor 2023/24. Mae ymarfer pob nos Lun, 7-8:30 y.h a gemau yn cael eu chwarae yn Ysgol Glantaf ar foreau Sadwrn. Wrth gwrs, mae'r agwedd gymdeithasol yn bwysig i ni a bydd nifer o nosweithiau a gweithgareddau cymdeithasol yn digwydd yn ystod y flwyddyn, a chroeso cynnes i bawb! Rydym yn croesawu chwaraewyr newydd o bob gallu felly cysylltwch os oes diddordeb ar Instagram, Twitter a Facebook: @hocicymric neu hocicymric.com

*Ffion Davies*



## Beca Evans



Cyflawnodd Beca Evans, 16 oed, gamp anhygoel ganol Gorffennaf (12ed). Mae'n droellwraig llaw dde, yn y chweched dosbarth yn Ysgol Glan Tâf. Yn y gêm griced rhwng Tîm Merched Cymru dan 18 a Chernyw yng nghlwb Criced Casnewydd, hithau oedd yn bowlio yn seithfed dros Gymru. Â'r gwrthwynebwyr wedi cyrraedd 96 am 3, cipiodd Beca y 7 wiced oedd yn weddill am 9 rhediad, mewn 3.5 pelawd. Cynhwysai hyn drithro (3 wiced mewn tair pêl) a dwy wiced lle daliodd y bêl o'i bowlio ei hunan. Roedd Cernyw allan am 117 ac enillodd Cymru y gêm o 7 wiced.

Mae'n debyg (yn ôl Criced Cymru) mai hyn oedd y perfformiad gorau bowlio gan unrhyw ferch dros Gymru erioed. Dyma ei llun gyda'r bêl a wnaeth y difrod - mae'n cadw'r bêl am ei champ o drithro!

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

## Yr Athro E. Wyn James



### Archdderwyddon Caerdydd

Yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, cyhoeddwyd mai'r Prifardd a'r Prif Lenor Mererid fydd Archdderwydd nesaf Gorsedd y Beirdd. Bydd hi'n cael ei gorseddu'n Archdderwydd Cymru yn Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam yn haf 2024.

Er ei bod yn byw yng nghyffiniau Caerfyrddin ers blynyddoedd, cafodd Mererid Hopwood ei geni a'i magu yng Nghaerdydd. Mae hi'n awdur toreithiog, ac un o'i chyhoeddiadau cynharaf, mae'n siŵr, yw'r darn rhyddiaith ganddi – dan yr enw 'Mererid Davies (8 oed)' – yn y gyfrol, *Enid Jones Davies, Prifathrawes Ysgol Gymraeg Bryntaf Caerdydd 1949–1972: Llyfryn Teyrnged i'w Chyfarch ar Achlysur ei Hymddeoliad*. (Diddorol, gyda llaw, yw gweld cerddi yn y gyfrol honno gan ddau brifardd arall a fu'n gyn-ddisgyblion i Mrs Jones Davies, sef Emyr Lewis a Gwyneth Lewis.) Ond nid Mererid fydd yr archdderwydd cyntaf i fod â chysylltiad â Chaerdydd.



*Mererid Hopwood*

Roedd Iolo Morganwg (1747–1826), crëwr Gorsedd Beirdd Ynys Prydain yn niwedd y 18fed ganrif, yn un o'r nythaid o feirdd a fyddai'n cyfarfod yng ngwesty'r 'Globe' – yr 'hen Gronell' – un o dafarndai hynaf Caerdydd, a safai gyferbyn â'r Castell (lle mae 'Elevens Bar & Grill' Gareth Bale erbyn hyn). Wedi dweud hynny, nid oedd Iolo yn rhyw hoff iawn o'r dref! 'Obscure and inconsiderable' oedd ei ddisgrifiad ohoni, er i ddatblygiadau masnachol a diwydiannol olygu y gallai ei galw'n 'flourishing seaport town' erbyn diwedd ei fywyd. Fel y dywed yr Athro Geraint H. Jenkins: 'Cyndyn oedd Iolo […] i fentro'n aml i Gaerdydd. Pencadlys Torïaeth ydoedd a'i fasnachwyr yn frwd o blaid caethwasanaeth. Yno hefyd, wrth gwrs, y treuliasai flwyddyn gron hynod ddiflas yn y ddalfa [oherwydd ei ddyledion] pan oedd ond prin ddeugain oed.'



*Christine James*
*Llun: Yr Eisteddfod Genedlaethol*

I fod yn fanwl gywir, er mai Iolo a greodd yr Orsedd, ni alwai ei hun yn 'archdderwydd', ac er i rai ddefnyddio'r enw mewn gwahanol gyd-destunau yn ystod y 19eg ganrif – megis y cymeriad hynod hwnnw, Myfyr Morganwg, a gynhaliai orseddau ar safle'r Maen Chwŷf ym Mhontypridd ac a'i galwai ei hun yn 'Arch Dderwydd Ynys Prydain' – roedd yn adeg Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam yn 1888 ar yr Orsedd yn mabwysiadu'r teitl 'Archdderwydd' yn swyddogol ar gyfer ei harweinydd. Ac yn yr olyniaeth o archdderwyddon o 1888 ymlaen, gwelwn nifer a chanddynt gysylltiad â Chaerdydd.

Er iddi gael ei geni a'i magu yn Nhonypandy yng Nghwm Rhondda, mae **Christine James**, a fu'n archdderwydd rhwng 2013 a 2016, yn byw yn yr Eglwys Newydd er 1987. Hi yw'r unig fenyw hyd yma i fod yn Archdderwydd Cymru.

Fel ei frawd, y Prifardd Aled Gwyn, mae rhagflaenydd Christine yn y swydd, sef **T. James Jones ('Jim Parc Nest'; 2009–13)**, yn byw yng Nghaerdydd ers blynyddoedd lawer; a bu ei holynydd, **Geraint Lloyd Owen ('Geraint Llifon'; 2016–19)**, yn fyfyriwr yn y coleg hyfforddi athrawon yng Nghyncoed, sydd bellach yn rhan o Brifysgol Metropolitan Caerdydd. Rhagflaenydd Jim Parc Nest, sef **Dic Jones ('Dic yr Hendre'; 2008–09)**, oedd yr archdderwydd pan ymwelodd yr Eisteddfod Genedlaethol â Chaerdydd yn 2008 a Geraint Llifon oedd yr archdderwydd pan ymwelodd hi â Chaerdydd yn 2018.

Bu **John Jenkins ('Gwili'; 1932–36)** yn fyfyriwr yng Ngholeg y Brifysgol yng Nghaerdydd yn 1896–97, a bu yng Nghaerdydd eto am gyfnodau yn 1906–09 ac am rai blynyddoedd o 1917 ymlaen, yn ddarlithydd yn y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol (1917–19) ac yna'n Llyfrgellydd Llyfrgell Salisbury (1919–21), yn gyfrifol am gatalogio'r llyfrgell Gymraeg a Cheltaidd nodedig honno o eiddo'r Coleg. Aeth i Fangor yn 1923, pan benodwyd ef yn Athro Groeg a Llenyddiaeth y Testament Newydd yng Ngholeg y Bedyddwyr yno.

Yn ystod ei gyfnod yng Nghaerdydd, roedd Gwili'n byw yn nhŷ ei chwiorydd yn 12 Glynrhondda Street yn Cathays i ddechrau, cyn symud yn haf 1918 i 21 Boverton Street, ger Parc y Rhath. Roedd ganddo dair chwaer yng Nghaerdydd: Elizabeth (a briododd Daniel Morgan, fferyllydd yn Heol y Dug), Lucy (a briododd yr ysgolhaig a'r ysbïwr, Morgan Watkin), a Sara, a weithiai yn Llyfrgell y Ddinas. Daeth Sara'n bur amlwg ym mywyd diwylliannol Cymraeg Caerdydd ac yn ehangach, ac fe'i gwelid yn darlithio, yn actio mewn

dramâu, ac yn ennill gwobrau am lunio englynion.

Menyw arall o'r teulu a fu'n byw am gyfnodau yng Nghaerdydd ac a ddaeth yn amlwg yn y bywyd cyhoeddus, oedd Nêst Jenkins, merch Gwili, a aned yn 1912. Fe'i penodwyd yn Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus y BBC yng Nghymru yng nghanol y 1930au, ac (fel Nêst Bradney erbyn hynny) bu'n gyfrifol am lansio'r rhaglen radio boblogaidd, *Woman's Hour*, wedi iddi symud i weithio i'r BBC yn Llundain yn 1945.

Mae Gwili yn fwyaf adnabyddus heddiw ar gyfrif ei emyn, 'Ddiddanydd anfonedig nef,/ fendigaid Ysbryd Glân', ac mae ei gyfrol fawr (ym mhob ffordd) ar hanes diwinyddiaeth yng Nghymru, *Hanfod Duw a Pherson Crist* (1931), yn parhau yn ddarllen anhepgor yn y maes. Mae'n amlwg fod Gwili yn llawn gobaith y deuai senedd i Gymru, oherwydd fe ddywed hyn mewn darlith gyhoeddus a draddodai'n fynych yn 1921: 'Senedd Gymreig oedd Senedd Glyn Dŵr, a Chymraeg oedd ar dafod ei llywydd a'i llu. Senedd y bydd Cymraeg ar ei thafod fydd Senedd Cymru eto, neu fe'n gwelir yn wawd i genhedloedd eraill, ac yn rheg i wladgarwyr disorod.'

Bu'r archdderwydd a olynodd Gwili, sef **J. J. Williams ('J. J.'; 1936–39)**, yntau'n fyfyriwr yng Ngholeg y Brifysgol yng Nghaerdydd, a hynny yn 1891–92. Fe'i ganed yn ardal Tal-y-bont yng Ngheredigion yn 1869, ond fel a ddigwyddai mor fynych, symudodd y teulu am resymau gwaith i gymoedd glofaol dwyrain Morgannwg yn 1882, a threuliodd J. J. Williams y rhan fwyaf o'r cyfnod rhwng hynny a 1915, pan aeth yn weinidog i'r Tabernacl, Treforys ('Y Cathedral Anghydffurfiol Cymraeg'), yn y cymoedd ychydig i'r gogledd o Bontypridd. Bu ei awdl delynegol 'Y Lloer', a enillodd iddo'r Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1906, yn hynod boblogaidd, fel y bu ei stori fer, 'Cadair Tregaron' (1911), a ailgyhoeddwyd yn ei gyfrol, *Straeon y Gilfach Ddu* (1931). Mae'r stori honno'n adrodd hanes rhai o drigolion un o bentrefi cymoedd y De yn cystadlu mewn eisteddfod yn Nhregaron, ac mae'r ddeialog ynddi yn y Wenhwyseg. 'J. J.' oedd yr archdderwydd pan ymwelodd yr Eisteddfod Genedlaethol â Chaerdydd yn 1938.

Dau archdderwydd arall a fu'n fyfyrwyr yng Ngholeg y Brifysgol yng Nghaerdydd oedd **Brinley Richards ('Brinli'; 1972–75)** a **Geraint Bowen ('Geraint'; 1978–81)**. Geraint Bowen oedd yr archdderwydd pan ymwelodd yr Eisteddfod Genedlaethol â Chaerdydd yn 1978.

Bu **William Evans ('Wil Ifan'; 1947–50)** yn weinidog mewn eglwys Gynulleidfaol Saesneg ym Mhen-y-bont ar Ogwr rhwng 1909 a 1917 ac eto rhwng 1925 a 1949, ond rhwng 1917 a 1925 bu'n gweinidogaethu mewn eglwys Gynulleidfaol Saesneg yn Richmond Road, Caerdydd (ar y safle lle mae Capel y Crwys erbyn hyn) ac yn byw yn 58 Miskin Street, Cathays.

Roedd Wil Ifan yn fab i Dr Dan Evans, gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Hawen a Bryngwenith (rhwng Rhydlewis a Chastellnewydd Emlyn), a Mary ei wraig. Bu Siân, chwaer Wil Ifan, yn athrawes Gymraeg yng Nghaerdydd a'r cyffiniau am rai blynyddoedd, yn aelod yn eglwys Ebeneser ac yn lletya â Moelona, yr athrawes a'r awdures o Rydlewis, a oedd hefyd yn aelod yn Ebeneser; ond gadawodd Siân Gaerdydd tua'r un adeg ag y symudodd ei brawd yno, pan gafodd ei phenodi'n brifathrawes ysgol newydd yn Beulah, yn agos i gartref ei rhieni yng Ngheredigion. Yn 1925, priododd D. J. Williams, Abergwaun.

Enillodd Wil Ifan Goron yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1917 (Eisteddfod 'Cadair Ddu' Hedd Wyn), ychydig wythnosau cyn iddo symud i Gaerdydd, ac fe'i henillodd eto â'i bryddest 'Bro Fy Mebyd' yn 1925, y flwyddyn y symudodd yn ôl i Ben-y-bont. Yn ystod ei gyfnod yng Nghaerdydd, cyhoeddodd ddwy gyfrol o gerddi Cymraeg, *Dail Iorwg* (1919) a *Plant y Babell* (1922). Cyhoeddodd hefyd ddwy gyfrol o gerddi Saesneg, *A Quire of Rhymes* (1918) a *Songs of the Heather Heights* (1921), drama bedair-act, *Y Dowlad* (1923), a golygiad o waith Taliesin o Eifion (Bardd 'Cadair Ddu' Eisteddfod Wrecsam 1876) yn 1922.

Wil Ifan yw awdur y garol 'Tua Bethlem dref', a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yng nghylchgrawn *Y Cerddor* yn Hydref 1919. Lluniwyd y dôn hudolus ar ei chyfer gan David Evans, golygydd *Y Cerddor* a phennaeth yr Adran Gerdd yng Ngholeg y Brifysgol yng Nghaerdydd. Yn yr un rhifyn o'r *Cerddor*, cyhoeddwyd tair carol arall gan ddau arall o drigolion Caerdydd ar y pryd, sef un gan Gwili ('Lleddf yw awel min yr hwyr') a dwy garol gan yr Archdderwydd Dyfed ('Ar fore dydd Nadolig' a 'Melys yw y gân'), a'r gerddoriaeth ar gyfer y rheini hefyd gan yr Athro David Evans (dan ei ffugenw 'Edward Arthur').

Fel yr awgryma ei enw yng Ngorsedd, brodor o sir Benfro oedd **Edgar Phillips ('Trefin'; 1960–62)**. Fe'i ganed yn 1889 yn Rose Cottage 'yn Nhre-fin ym min y môr' (chwedl Crwys), hanner ffordd rhwng Abergwaun a Thyddewi, ond pan oedd yn 11 oed symudodd y teulu i Gaerdydd. Rhydlyd a bratiog oedd Cymraeg ei dad a'i lys-fam, ac roedd eu hagwedd at yr iaith yn negyddol iawn, ond atgyfnerthwyd Cymreictod yr Edgar ifanc dan ddylanwad un o'i athrawon yn Ysgol Sloper Road yn Grangetown, sef John Rowland (brodor o Dregaron a ddaeth yn Ysgrifennydd Cymrodorion Caerdydd yn 1904 ac yn ysgrifennydd preifat i David Lloyd George yn 1906). Ef oedd yr unig blentyn yn ei ddosbarth a siaradai Gymraeg, ac fe'i gelwid gan y plant eraill yn 'ancient Briton'.

Dychwelodd Edgar Phillips i'w ardal enedigol yn 14 oed i'w brentisio i fod yn deiliwr, a thra oedd yno dysgodd y cynganeddion. Wedi iddo orffen ei brentisiaeth, bu'n teilwra yng Nghaerdydd, Llundain a mannau eraill, a bu am gyfnod yn filwr, gan gael ei glwyfo'n wael yn Ffrainc yn 1917. Yna, yn 1921, aeth i Goleg Caerllion i hyfforddi'n athro. Bu'n athro Cymraeg ym Mhontllan-fraith, ger y Coed-duon yng Nghwm Sirhywi, o 1924 hyd ei ymddeoliad yn 1954. Adeg ei ddyrchafu'n archdderwydd, cyflwynodd ei gyn-ddisgyblion lun olew ohono i'w osod yn yr ysgol ym Mhontllan-fraith. Ef oedd yr archdderwydd pan ymwelodd yr Eisteddfod Genedlaethol â Chaerdydd yn 1960. Cyhoeddwyd *Cofiant Trefin* gan Brinley Richards yn 1963.

Erys dau archdderwydd, sef **Evan Rees ('Dyfed'; 1905–23)**, a oedd yn byw yng Nghaerdydd ar hyd ei gyfnod hir yn archdderwydd ac a fu farw gan mlynedd yn ôl i eleni, a **Howell Elvet Lewis ('Elfed'; 1924–28)**, a fu'n byw ym Mhenarth ac yn aelod yn Ebeneser, Caerdydd, rhwng 1940 a'i farw yn 1953; ac os byw ac iach, dychwelwn at y ddau mewn ysgrif arall maes o law.

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## Llongyfarchiadau Alison Cairns

## Gwilym Dafydd

**Dysgwr y Flwyddyn 2023**

Unwaith es i mewn i'r pafiliwn mawr yn Eisteddfod Genedlaethol Boduan sef ar gyfer Seremoni Dysgwr y Flwyddyn – ar brynhawn Mercher, 9 Awst a ddechreuodd ychydig yn hwyr wedi tri o'r gloch.

Fel y gwyddoch efallai, roedd pedwar ar y llwyfan wedi cyrraedd y rownd derfynol. Roedd hi'n amlwg bod cefnogwyr i'r pedwar yn eistedd yn y gynulleidfa.

Wyddoch chi bod y person buddugol yn derbyn gwobr £300 ac yn derbyn gwahoddiad i fod yn aelod o'r Orsedd ynghyd â gwahoddiad i ymuno â Phanel Dysgwyr yr Eisteddfod?

Llongyfarchiadau mawr i Alison Cairns. Mae hi eisoes yn berson prysur gan bod ganddi saith o blant!

Mae hi'n dod o Perthshire yn Yr Alban yn wreiddiol ond erbyn hyn yn byw ar fferm ger Llannerch-y-medd ar Ynys Môn gyda'i phartner Sion a'r plant.

Cymraeg yw iaith y cartref ac mae Alison yn defnyddio'r iaith yn ei swydd ym myd gofal wrth ymdrin â chleifion.

Mae hi'n mwynhau gweithio gyda cheffylau a chic-bocsio, yn gneifiwr profiadol sydd wedi ennill nifer o wobrau dros y blynyddoedd.

Fel mae'n digwydd, gyrrodd Eirian a fi a'i brawd Goronwy trwy Lannerch-y-medd ar y prynhawn Llun wedi'r Eisteddfod. Cofiaf i ni barcio yn Asda, Llangefni, ac aethon ni draw i'r siop lyfrau Cymraeg, Cwpwrdd Cornel, i brynu copi o'r Cyfansoddiadau am £12. Yno gwelir enwau'r personau oedd yn fuddugol yng nghystadleuthau Adran Dysgu'r Gymraeg.

Rwy'n sylwi ar un enw sef Joan Benison, Caerdydd. Mae dwy Joan gyda ni yn Clonc Yr Awr Hapus, boreau Llun. Wn i ddim pwy yw'r Joan hon gafodd wobr £50 am ysgrifennu darn o ryddiaith, Ystafell 101 – tri o fy nghas bethau, lefel Canolradd. Llongyfarchiadau Joan ac os gwelwch hwn yna mae croeso i chi ysgrifennu paragraff ar gyfer rhifyn mis Hydref – ac Alison Cairns tase hi yn digwydd darllen y geiriau hyn yng nghanol ei bywyd prysur!

**Sheena o'r Alban**

Mae Sheena Scrafton o'r Alban yn un o ffyddloniaid ein hoedfa fisol swmiaid hapus ar fore Sul cyntaf o'r mis, 9.00 – 9.40. Byddwn yn ailddechrau bore Sul cyntaf mis Hydref. Croeso i eraill newydd ymuno gyda ni – mae'n gyfle da i ddarllen emyn neu ychydig adnodau a dyn ni wastad yn cael sgwrs fach ddigon hwyliog tua'r diwedd.

Daeth Sheena lawr i Gaerdydd am 6 wythnos i ddysgu Cymraeg yn adeilad John Percival yn y Brifysgol.

Daeth hi draw i gael cinio dydd Sul gydag Eirian a fi, 23 Gorffennaf. Mae hi'n mwynhau mynychu oedfaon Cymraeg yng Nghymru a'r bore Sul hwnnw aeth i Fethel Caerffili lle roedd Delwyn Siôn yn gwasanaethu ac yna ar ôl cinio draw i oedfa Ebeneser yn yr Eglwys Newydd gyda'r Parchg Alun Tudur wrth y llyw.

Roedd Sheena yn teimlo'n ddigon cartrefol wrth fwyta ei chinio yn ein hystafell ym mlaen y tŷ – gan ei bod wedi gweld peth ohono sawl gwaith ar Zoom yn ystod y blynyddoedd diweddar!

Un arall o ffyddloniaid yr oedfa fisol Zoom yw'r Dr Emyr Wyn Jones, unwaith o Bwllheli ond yn Doncaster ers blynyddoedd. Digwyddodd e weld neges ar Trydar gen i yn cyfeirio at fy nhaid yng Nghastellnewydd Emlyn – roedd Emyr yn arfer ei alw yn Ŵncl Clement – a dyna sut ddysgais ei fod e a fi yn perthyn! Yn anffodus wnes i ddim dod ar ei draws yn Eisteddfod Boduan ond gwych oedd clywed iddo gyfarfod ag Eirian wyneb yn wyneb ar y Maes. Tybed a ddaw Dr Emyr lawr yr holl ffordd o Doncaster i Barc Ynysyngharad yn 2024!

Ac Emyr yw awdur myfyrdodau mis Medi yn *Gair y Dydd* – deunydd defosiwn dyddiol. Wedi ei fagu yn Salem Pwllheli sef Eglwys Bresbyteraidd Cymru ond bellach yn perthyn i'r Eglwys Gatholig fel ei wraig. Llongyfarchiadau iddo gyda hwn – nid yw wedi cael cyfle i siarad rhyw lawer o Gymraeg nac ysgrifennu wedi byw a gweithio yn Doncaster ers sawl degawd.



# Pobol y Rhigwm

Ar ôl cystadleuaeth wantan cyn toriad yr haf, mae'n galonogol bod rhigymwyr Gorffennaf wedi cael tipyn gwell hwyl arni. Cyfyngais yr ymgeiswyr i ddau fesur penodol y tro hwn, sef y triban a'r englyn. O'r un cynnig ar ddeg a yrrwyd i fewnflwch y beirniad, ro'dd naw ohonyn nhw'n gwbwl driw i ofynion mydryddol y mesur o'u dewis, ac mae hynny i'w groesawu'n arw. Gwaetha'r modd, rhaid diystyru dau gynnig gwallus, sef triban *Y Ffermwr Hapus* â'i derfynau acennog i linellau 1 a 2, ac englyn *Wedi Blino*, sy ddim yn cynnwys yr un llinell o gynghanedd! Mae'n biti yn achos yn y naill achos a'r llall, mae yna weledigaeth.

O ran y gweddill, teimlaf ddyletswydd mawr i sôn bod mydryddiaeth pob ymgeisydd wedi fy mhlesio, achos fe fydda i'n lladd ar ddiffyg mydryddiaeth yn ddigon rheolaidd! Ym mhob triban, mae nifer y sillafau'n cydweddu â'r mesur a'r odl fewnol yn ei lle naturiol, ac mae'r englynion wedi'u cynganeddu'n gywir ac yn goferu'n esmwyth. Daw'r unig fymryn o fydryddiaeth herciog, mewn gwirionedd, yn nhriban *Blodyn*. Mae'r rhythm acennog naturiol yn gorfodi rhywun i osod y pwyslais ar 'bil' yn hytrach nag 'ym' yn 'ymbil', o'i roi ar ddechrau'r llinell. Bydde rhywbeth fel 'gan ymbil glaw i'r ddaear lwyd' yn unioni hynny. Mae'n werth gwneud, gan fod triban *Blodyn*, fel arall, yn drawiadol. Mae gan *Ar Tri Di Tri* a *Tatws* ill dau dribannau crwn a chynhwysfawr. At hynny, mae defnydd *Ar Tri Di Tri* o'r cynhaeaf fel cyffelybiaeth ar gyfer hynt y galw am hunanlywodraeth, yn syniad gwreiddiol. Mewn cystadleuaeth wannach fe fydden nhw'n codi i dir uwch. Mae *Gronyn* a *Cennad* wedi mynd ar drywydd Diolchgarwch gyda thribannau coeth sy'n adleisio cyrddau'r adeg hon o'r flwyddyn. Cyn dod at y tri sy ar y brig, dyma'r ymgais ddaeth yn nesaf ati, fel petai, yn ei gyfanrwydd:

Yn yr eglwys aroglant – y ffrwythau
a'r llysiau i'w llesiant,
ond saim ar dorth yw'r porthiant,
â selsig plastig i'r plant.
*Mis Aldi*

Os deallaf yn iawn, rhieni sy yma yng ngwasanaeth Diolchgarwch eu plant, gyda'i stôr o gynnyrch ffres, ond bod caledi ariannol, wedyn, yn golygu mai swper di-faethlon gaiff y plant eu hunain. Syniad campus, a chyferbynnu clyfar. Mae'r englyn hwn wedi'i gynganeddu'n gryf (cynghanedd Sain rhwng y cyrch a'r ail linell) ac mae'r esgyll yn sobor o wreiddiol.

Rhyddhad a phleser, felly, yw dweud bod cryn deilyngdod y tro hwn. Mae safon y tri sy'n weddill yn rhagorol ac mewn misoedd mwy diffaith, fe allen nhw i gyd fod wedi cipio'r wobr, (a *Mis Aldi*, mewn gwirionedd). Dyma'r tri chynnig, a phwt am bob un:

Daeth newid i'r tymhorau
A thro i'r cynaeafau.
Sguboriau'r wlad i gyd yn llond –
Ag Ebrill ond yn dechrau.
*Ar Tw Di Tw*

Chwip o driban am newid hinsawdd. Ei gryfder yw ei symlrwydd. Fentra i ein bod ni i gyd wedi sylwi ar y gwyrdroi annifyr yn mhatrwm naturiol y tymhorau. Cyflewyd hynny'n gynnil a di-ffws mewn naw sillaf ar hugain yma. At hynny, os ydych chi'n chwilio am batrwm ar gyfer ysgrifennu triban sy'n fydryddol berffaith, yna hwn amdani. Ardderchog, *Ar Tw Di Tw*!

Tyf R.T. a Rishi rith cynhaeaf.
Yn lle cnoi ar felltith
eu plaid, yr us yn ein plith,
gwahanwn ef o'r gwenith.
*Eisiau bwyd*

Dyma englyn dychan go iawn sy hefyd yn adleisio Mathew 3:12! Yn hynny o beth, mae'n gwbwl destunol, ac mae wedi cymhwyso'r ddelwedd o wahanu'r us oddi wrth y gwenith yn syfrdanol at ddibenion llesgedd gwleidyddol. Mae *Eisiau Bwyd* yn amlwg yn bwrwi'i olygon tuag at yr Etholiad Cyffredinol nesaf! Mae'r defnydd o enwau i greu'r gynghanedd Sain yn y llinell gyntaf yn gweithio i'r dim, ac mae'r englyn cyfan wedi'i saernïo i lifo'n ddiymdrech. Mae hynny'n anodd iawn, iawn! Rhaid wrth y mymryn lleiaf o hollti blew, dim ond er mwyn rhoi'r teneuaf o ffiniau rhwng hwn a'r buddugwr! Yn y llinell glo, yn naturiol, fe fyddwn i'n bersonol yn rhoi'r orffwysfa ar ôl 'ef' yn hytrach na 'gwahanwn'. Fodd bynnag, mae yna Brifeirdd sy'n anghytuno gyda fi o ran egwyddor yr orffwysfa ac wrth unrhyw linyn mesur, mae englyn *Eisiau Bwyd* yn wych!

Un wlad yn cynaeafu;
Un arall bron â llwgu!
Nid môr, ond erchyllterau dyn
Ei hun sy'n eu gwahanu!
*Pwt Owt*

Dyma driban arall sy'n fydryddol berffaith. Megis dechrau'r ganmoliaeth yw hynny! Ni laciodd y triban hwn ei afael arnaf. 'Rhyfel Putin' yw'r is-deitl a roddodd *Pwt Owt* arno (ac mae'r ffugenw clyfar hefyd yn ategu'r testun) ond doedd dim eisiau rhagymadroddi, mewn gwirionedd. Mae'n amlwg beth sydd yma, ac mae wedi'i gyfleu'n gampus. Mae technegau barddol o'r radd flaenaf: Ailadrodd 'un' ar ddechrau llinellau un a dau, a'r cyferbynnu syml ond effeithol, wedyn, rhwng y ddwy linell honno. Mae'r ddwy linell glo yn delweddu'n wreiddiol o syfrdanol. Mae'r hollt rhwng natur aflan Putin a'i fyddin, a'r dioddefwyr diniwed, llwglyd yn Wcráin, megis môr fyddai'n gwahanu gwledydd eraill. Rhagorol. Gyda detholiad twyllodrus o syml o eiriau a delweddau, mae *Pwt Owt* wedi cyfleu hanfod un o drasiedïau dyngarol gwaethaf ein hoes. Mae'n fwy na haeddu'r wobr gyntaf. Yr unig beth y byddwn i'n ei newid yw hepgor yr ebychnod ar y diwedd. Fel yr is-deitl, does dim ei angen. Diolch i *Pwt Owt* am barchu mesur y triban a'i ddefnyddio mewn ffordd mor gain.

*Aron Pritchard*

**Enillydd Gorffennaf / Awst**
**Bryan James, Llandaf**

**Cystadleuaeth mis Medi**

**Pennill (caeth neu rydd) ar fydr ac odl, heb fod dros 4 llinell: Dail Crin**

*Anfonwch eich cynigion erbyn 22 Medi at:*
*eirianagwilym@gmail.com*
*Gwobr: Tocyn llyfr: £10*

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## EGLWYS Y CRWYS

Bu i ni golli dwy aelod annwyl iawn yn ystod yr haf. Bu farw Mrs Sally Davies yn 98 mlwydd oed. Bu'n aelod ffyddlon yn yr oedfaon ac yn hynod o gefnogol i weithgareddau'r Eglwys. Mae'n cydymdeimlad dwysaf â'i mab Huw a'r teulu.

Ychydig ddyddiau cyn ei phenblwydd yn 97 oed bu farw Mrs Margaret Kettle a oedd hefyd yn aelod ffyddlon ers iddi symud i Eglwys y Crwys o Fanceinion. Cydymdeimlwn â'i meibion Ian a Huw a'u teuluoedd yn eu hiraeth.

Rydym yn anfon cyfarchion at Mr Bob Roberts a dreuliodd gyfnod yn cael triniaethau yn yr ysbyty. Pob dymuniad da i ti Bob a brysia wella. Rydym yn gweld dy eisiau!

Llongyfarchiadau i Mair Rowlands ac Elis ar enedigaeth eu mab bach Bleddyn. Mae Nain a Taid, Mali a John Rowlands, wedi gwirioni. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

Daeth Siân Griffiths yn fam-gu unwaith eto hefyd. Ganwyd Noa, mab Iwan a Gemma Gruffydd a brawd bach i Ela. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da.

Llongyfarchiadau i'r holl ieuenctid a lwyddodd yn eu harholiadau yn ystod yr haf. Rydym yn falch iawn ohonoch. Pob dymuniad da i bob un sy'n mynd i wahanol Brifysgolion a hefyd i'r rhai sy'n symud ysgol ym mis Medi.

Bydd Y Gymdeithas yn cychwyn y tymor newydd ym mis Medi gyda noson o Swper Mawr a Gemau Bwrdd o dan ofal Mathew Bill. Edrychwn ymlaen at dymor llwyddiannus arall gyda diolch i Cerian Angharad am y trefniadau.

Mae aelodau'r Gymdeithas Ddrama hefyd yn edrych ymlaen at y tymor newydd gan obeithio perfformio dwy ddrama fer.

Cofiwch bod croeso i gyd-addoli gyda ni yn Y Crwys. Dyma drefniadau oedfaon mis Hydref:

Hydref 1af: Bore: Dim oedfa (Marathon Caerdydd); Hwyr: Parch Robin Samuel (oedfa Gymun)

Hydref 8fed: Bore: Dr Eirian Dafydd; Hwyr: Eglwys Ebeneser

Hydref 15fed: Bore: Gwasanaeth Diolchgarwch; Hwyr: Mrs Margaret Jones

Hydref 22ain: Yr Athro Ddr John Tudno Williams

Hydref 29ain: Parchg Robert Owen Griffiths

## TABERNACL, YR AIS

**Teyrnged i Sian John**

Cydymdeimlwn gyda Denzil, Luned a Dyfrig, Aled a Lynwen, a'r wyrion Hawys, Gwydion, Gethin a Megan, yn dilyn marwolaeth ddisymwth Sian. Fe wynebodd Sian ei salwch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda dewrder, sirioldeb a chryfder di-syfl ei ffydd. Bu'n ffrind annwyl i nifer ohonom, gan gyfrannu'n dawel ac yn ddi-ffws i waith yr eglwys mewn amryw ffyrdd. Gwerthfawrogwn ei chefnogaeth gyson a chadarn i Denzil yn ystod ei weinidogaeth yma yn y Tabernacl, ac yn yr eglwysi eraill lle bu'n weinidog. Roedd yn athrawes wrth reddf, gan dreulio'r rhan fwyaf o'i gyrfa yn Ysgol Gymraeg Caerffili. Er yn aelod ffyddlon gyda ni yma yn y ddinas, roedd rhan fawr o'i chalon yn perthyn i'r cwm a'r gymdeithas lle roedd yn byw ac yn gweithio. Gweddïwn dros y teulu yn eu profedigaeth a'u galar, tra'n diolch i Dduw am yr oll a gyflawnodd Sian yn ystod ei bywyd.

**Newyddion arall**

Bu wythnosau cyntaf Gorffennaf yn amser prysur a hapus i nifer o deuluoedd yr eglwys.

Llongyfarchiadau mawr i Angharad a Huw ar enedigaeth Cynan Llŷr, ac i Manon a Rhys ar enedigaeth Greta Gwen rai diwrnodau'n ddiweddarach. Hyfryd oedd gweld Greta yn mynychu ei hoedfa gyntaf a hithau yn llai nag wythnos oed, a Cynan yr un modd yr wythnos ganlynol!

Yn Ne Lloegr, ganed ail ferch, sef Ffion Alys, i Eleri a'i chymar Ben, chwaer fach i Elsi ac wyres arall i Helen a Rhys Jones.

Llongyfarchiadau hefyd i Iwan Jones a Gosia Drozdowska ar eu priodas yn y Tabernacl yn ddiweddar - achlysur arall i deulu Helen a Rhys ddathlu.

Pob bendith i Shan a Mike Pickard ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar.

Dymunwn yn dda i Steffan Long a fydd yn gadael i weithio yn Siapan. Mae eisoes wedi dysgu siarad a darllen yr iaith.

Ar ddechrau Gorffennaf, cynhaliwyd Te Mefus ac fe godwyd £1,130 tuag at waith y Samariaid yng Nghaerdydd.

Llongyfarchiadau i Noa Evans a raddiodd o Brifysgol Lerpwl mewn daearyddiaeth, ac i Osian Rogers wrth iddo ennill gradd mewn deintyddiaeth o Brifysgol Plymouth.

Ymhyfrydwn fod un a fagwyd yn y Tabernacl ac a fu yn un o blant yr Ysgol Sul – Mererid Hopwood - wedi ei hethol i weithredu fel Archdderwydd Gorsedd Beirdd Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Yr Haf**

Bu tipyn o fynd a dod yn ein plith yn ystod wythnosau'r haf wrth i'r aelodau fwynhau ychydig o wyliau a newid byd. Cawsom gwmni sawl pregethwr gwadd ar y Suliau pan oedd y gweinidog i ffwrdd. Daeth Meirion Thomas sydd newydd ymddeol o eglwys Heol Malpas yng Nghasnewydd atom un Sul a hefyd John Aaron o Eglwys Ebenezer, Abertawe. Peth digon prin y dyddiau hyn yw gweld dyn ifanc yn hyfforddi i fod yn weinidog a braint un Sul oedd croesawu Gruffydd Jenkins i bregethu o Tabernacl, Llwynhendy sydd ar ei flwyddyn olaf yng ngholeg y Bedyddwyr Caerdydd.

**Gwersylloedd**

Aeth sawl un o'n heglwys yn gaplan, arweinydd, swyddog, cogydd a gwersyllwr i wersyll Mudiad Efengylaidd Cymru ym Mryn-y-Groes, y Bala a Pentrenant ar y gororau. Yn ôl y sôn cafodd pawb amser hapus wrth fwynhau'r gwahanol weithgareddau a dysgu gyda'i gilydd o'r Beibl.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Morus, Elliw, Rhodri, Bedwyr, Emrys a Iolo ar eu llwyddiant yn eu harholiadau Lefel A a TGAU.

**Tymor Newydd**

Edrychwn ymlaen at weld holl weithgareddau'r eglwys yn ail ddechrau yn yr wythnosau nesaf.

**Trafod Cerddi ac Emynau Cristnogol**

Bydd y sesiynau poblogaidd yma dan arweiniad yr Athro Wyn James yn ailddechrau nos Iau, Hydref 5.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon ac Ysgol Sul (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):**
**Medi 2023:**

3 – Oedfa Gymun – Delwyn Sion (dim Ysgol Sul)
10 – Emlyn Davies
17 – Aelodau Gogledd Caerdydd
24 – Parchedig Robin Samuel

**Teyrnged i'r Parchg Ddr R Alun Evans**

Y nodyn olaf a dderbyniais oddi wrth y Parchedig R Alun Evans ar ddechrau mis Awst, a minnau'n ceisio ail-drefnu dyddiad ar gyfer Cwrdd Diaconiaid Bethlehem oedd fel a ganlyn:-

"*Fel mae pethau, ymddiheuriadau ymlaen llaw*." RAlun.

Fe wyddom bellach na fydd yno yn ein mysg yn y cnawd, ond fe fyddwn yn ymwybodol iawn o'i bresenoldeb yn ein plith – ymhob gweddi ar gychwyn y cyfarfod; ym mhob awgrym cynnil yn ystod y drafodaeth; ymhob oedfa a chyflwyniad a chyngerdd; ymhob Drama Nadolig a Phlygain; ymhob Cwrdd Merched a Drws Agored; ymhob her a fydd ar ein llwybr wrth i ni gamu 'mlaen o'n dathliadau diweddar i nodi 150 o flynyddoedd ers agor yr adeilad presennol.

Ac ef a fu'n ddiwyd yn paratoi, yn drylwyr a phwrpasol yn ôl ei arfer, ar gyfer yr oedfa honno ar Sul y 25ain o Fehefin a fu'n glo ar y dathliadau.

A'i her i ni bryd hynny, wrth edrych 'mlaen tuag at y ganrif a hanner nesaf?

Byddai "e*in presenoldeb ni fel teulu o gredinwyr, yn dod i'r tŷ hwn, sydd yn Dŷ Cwrdd i'n heneidiau*" yn ein cynorthwyo i "*dderbyn yr hyn sydd yn cael ei gynnig yn nhermau ffydd yn ymarferol, ac yn rhan o'n bywyd pob dydd – nid gimics na phethau ffasiynol*".

'Roedd y gymeradwyaeth ar ddiwedd yr oedfa gan y gynulleidfa niferus y bore hwnnw nid yn unig yn adlewyrchu'r gwerthfawrogiad o'r oedfa arbennig a gafwyd, ond yn cydnabod presenoldeb a chyfraniad Alun yn ein plith, fel Gweinidog, ac wedi ei ymddeoliad, fel cyfaill i bob un ohonom.

Ein cydymdeimlad dwysaf fel eglwys gyda Rhiannon a'r teulu cyfan yn eu colled a'u hiraeth.

## EBENESER

**Cyngerdd Haf**

Ar 12fed o Orffennaf cynhaliwyd cyngerdd had elusennol ar ran Ebeneser yn Eglwys Fethodistaidd yr Eglwysnewydd i godi arian i Apêl DEC Daeargryn Twrci Syria. Cymerwyd rhan gan Gôr Canna a'r unawdydd Parisa Fouladi. Cafwyd anerchiad gan Cynan Llwyd, Arweinydd Cymru, Tear Fund. Llwyddwyd i godi tua £1800.

**Bedydd**

Llawenydd mawr oedd tystio i fedydd Tomi Prys Ellis, mab Bethan a Jon, brawd bach Mali, Macsen a Loti ac ŵyr Gethin a Gill Lewis, mewn oedfa deuluol fywiog ar fore Sul 16eg o Orffennaf.

**Llyfr y Flwyddyn**

Llongyfarchiadau mawr iawn i Huw a Luned Aaron am ennill gwobr Llyfr y Flwyddyn Llenyddiaeth Cymru yn y categori Plant a Phobl Ifanc am eu cyfrol *Dwi eisiau bod yn Ddeinosor*. Rydym yn eithriadol o falch ohonynt a'u doniau creadigol.

**Penblwyddi**

Fe ddathlodd Vikki Tudur ei phenblwydd yn 60 oed ar gychwyn mis Gorffennaf. Pob dymuniad da ac iechyd iddi i'r dyfodol. Dathlodd Margaret Jones hithau y garreg filltir o 90 oed ddechrau Gorffennaf hefyd.

**Graddio**

Llongyfarchiadau i Lowri Tudur ar ennill gradd M.Sc. mewn Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr iawn i Fiona a Llewelyn Tudur, Penarth, ar enedigaeth Nina Haf ar 28ain Mehefin. Dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol fel teulu a boed i'r Arglwydd eu bendithio yn helaeth.

**Priodas**



Ar 25ain o Orffennaf priododd Lowri Rhiannon Tudur ac Will Elvis Eveleigh yn Bredenbury Court Barns nid nepell o Henffordd. Pob dymuniad da iddyn nhw a phob bendith yn eu bywyd gyda'i gilydd.

**Caergrawnt**

Symudodd Gwilym Tudur ac Alex ei wraig o Aberystwyth i Gaergrawnt ddiwedd Gorffennaf. Bydd Gwilym yn gwneud Ph.D. rhan amser ar y Parchg George Lewis ac yn gweithio rhan amser gyda Chyfadran Ddiwinyddol Prifysgol Caergrawnt. Bydd Alex yn athrawes mewn ysgol. Pob dymuniad da iddyn nhw.

**Colled**

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Margaret Jones yn Ysbyty'r Waun ar 23ain o Awst. Pob cydymdeimlad i'r meibion, Alun a Dafydd a'u teuluoedd. Bu'n aelod diwyd a ffyddlon.



*Côr Canna*

## EGLWYS DEWI SANT

**Gŵyl Eglwys Gadeiriol Llandaf**

Cynhaliwyd Gŵyl Eglwys Gadeiriol Llandaf ddechrau Gorffennaf, â dau ddigwyddiad yn Gymraeg eleni, sef anerchiad – 'William Morgan ac achubiaeth yr iaith Gymraeg' a the prynhawn, a Chymanfa Ganu yng nghwmni Côr Meibion Pontarddulais.

**Coffi a Chlonc**

Bu sesiwn o 'Coffi a Chlonc' yn Neuadd yr Eglwys, 15 Gorffennaf. Bydd y sesiwn nesaf fore Sadwrn 16 Medi'r rhwng 10:30 a 12:00.

**Y Banc Bwyd**

Casglwyd bwyd a nwyddau yn ystod Gorffennaf i'r Banc Bwyd.

**Barbeciw'r Eglwys**

Mwynhawyd noson hyfryd yn Hafod Lon ddiwedd Gorffennaf yn y barbeciw blynyddol.

**Cloch Dewi**

Diwedd Gorffennaf, daeth rhifyn arall o gylchgrawn lliwgar a diddorol yr eglwys i law. Diolch i Wyn Mears ac i'r cyfranwyr.

**Datganiad Organ**

Gwelwyd eglwys rwydd lawn ar 11 Awst ar gyfer datganiad organ graenus Elin Rees sy'n enedigol o Benarth. Mae Elin nawr yn Organydd Eglwys y Plwyf yn Bury. Bydd y datganiad nesaf ddydd Gwener, 13 Hydref am 1:15 gan Carleton Etherington, Cyfarwyddwr Cerdd ac Organydd Abaty Tewkesbury.

**Bedydd**

Dydd Sul, 13 Awst, bedyddiwyd Griff Wyn, mab Elinor Carson a Jonathan Sullivan. Dymunwn bob bendith iddo.

**Gwibdaith Awst**

Buom yn hen eglwys Llangynwyd a sefydlwyd gan Cynwyd Sant yn y 6ed.g., a chael cinio yn nhafarn to gwellt Yr Hen Dŷ, cyn sgwrs ddiddorol gan Allen James am hanes y plwyf a'r chwedl wrth wraidd 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn' a hanes Wil Hopcyn, Ann Thomas ac Anthony Maddocks. Gorffennwyd y pnawn gyda gwasanaeth.

**Canolfan Glyd Y Tabernacl**

Diwedd Awst, cymerodd aelodau o eglwys Dewi Sant eu tro i ofalu am yr elfen bwysig hon o weithgaredd eglwysi Cymraeg Caerdydd.

**Gwasanaethau a'r Ysgol Sul**

Bydd gwasanaeth yn yr eglwys bob dydd Sul am 10:30 a.m. ac am 6:00 p.m. a gwasanaeth am 8:00 a.m. ar y Sul cyntaf a'r trydydd. Gweinyddir y Cymun Bendigaid yn yr eglwys bob bore Mercher am 10:30 gyda phaned i ddilyn. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn 17 Medi yn ystod y gwasanaeth 10:30 a.m.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Bydd Offeren mis Medi yn Eglwys Teilo Sant ar 24 Medi am 4.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

**Offeren Y Cylch Catholig ym mro'r Eisteddfod Genedlaethol**

Dathlwyd yr Offeren eleni yn Eglwys Gatholig Sant Ioseff, Pwllheli ar nos Iau, 10 gan yr Esgob Edwin Regan (a fu'n gweinidogaethu gynt fel offeiriad plwyf yn Archesgobaeth Caerdydd. Yn cyd-ddathlu'r Offeren gyda'r Esgob Edwin roedd y Tad Allan Jones, Luton, y Tad Robert Rainbow, Tremadog a'r Tad Francis Arinze Ayogu, offeiriad plwyf Pwllheli a Phorthmadog. 'Roedd yr Esgob Peter Brignall hefyd yn bresennol wrth ddiolch dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at groesawu Offeren yr Eisteddfod i'w eglwys gadeiriol yn Wrecsam yn 2025.

Darllenwyd y llith gan Sue Roberts, sydd yn wreiddiol o Lanisien, Caerdydd. ac yn gyn-ddisgybl Ysgol Hafod y Waun (Heathfield House). Mae adeilad gwreiddiol yr ysgol honno bellach yn gartref i Ysgol Kings Monkton.

Offeren flynyddol bro'r Eisteddfod yw uchafbwynt ysbrydol y flwyddyn i nifer o Gatholigion Cymraeg, gyda chyfle i gyd-addoli a chymdeithasu â Chatholigion o bedwar ban y byd – a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. 'Roedd hi'n bleser ac yn achos o falchder clywed y Tad Francis Arinze Ayogu yn darllen yr Efengyl - a'i ynganiad Cymraeg mor raenus a naturiol. Er ei fod yn wreiddiol o Nigeria, mae wedi ymgartrefu'n hapus ym mhlwyf Pwllheli. Traddodwyd y bregeth gan y Tad Allan Jones, Cymro o Faesteg a fu'n astudio ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn fugail yr Offeren Gymraeg yn y ddinas yn ystod y cyfnod hwnnw.

Yr organyddes oedd Gillian Williams a'r unawdydd lleisiol Ann Williams – y ddwy o Bwllheli. Daeth yr Offeren i ben gydag emyn Lewis Valentine "Gweddi dros Gymru". Yn dilyn yr Offeren, cafwyd lluniaeth ysgafn a ddarparwyd gan y plwyfolion lleol.

Bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn dychwelyd i'r De yn 2024 ac mae cryn edrych ymlaen yn barod at yr Offeren pan ddaw'r Eisteddfod i ardal Rhondda Cynon Taf fis Awst nesaf.

*Anne Uruska, aelod o gynulleidfa'r Offeren yn Eglwys Teilo Sant.*

## EGLWYS MINNY STREET

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Mae pawb yn edrych ymlaen yn fawr at ddechrau blwyddyn eglwysig newydd ym mis Medi. Dyma drefn yr oedfaon: bydd yr oedfa foreol yn cael ei chynnal bob Sul am 09:30 gydag oedfa bregeth am 10:30 ar yr ail Sul; bydd yr oedfa hwyrol am 18:00 bob Sul. Ar y trydydd Sul yn y mis cynhelir Ysgol Sul i'r plant hŷn; bydd PIMS yn cyfarfod yn fisol am 17:00 ar brynhawn Sul cyntaf y mis. Bydd cyfle i ymuno â sawl oedfa drwy gyfrwng *Zoom.*

Edrychwn ymlaen at arweiniad ein Gweinidog yn oedfaon 3, 10 ac 17 Medi. Cynhelir ein Gŵyl Flynyddol ar 17 Medi; yn yr hwyr estynnir croeso i gyfeillion eglwysi Cymraeg eraill y ddinas i'n plith pan fydd y Parchedig Evan Morgan yn pregethu. Bydd oedfa'r bore ar y 3ydd yn oedfa gymun ac oedfa 09:30 ar y 10fed yn oedfa deulu. Ar Sul olaf y mis, edrychwn ymlaen at groesawu ein cyd-aelod Dr Hefin Jones i arwain addoliad y bore a'r Athro Glyn Jones, cyd-aelod arall, i arwain addoliad yr hwyr. Yn ystod oedfaon 3, 17 a 24 Medi y bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod.

**Gweithgarwch y mis**

Trefnir taith Tan-y-bwlch i Ogledd Cymru ddechrau'r mis. Bydd Minny Street yn cynorthwyo yn yr Ystafell Glyd yn y Tabernacl, Yr Ais brynhawn Sul 17 Medi. Gallwn edrych ymlaen at ddau gyfarfod o gyfres newydd, Seilo, yn ystod y mis ac ailafael yng nghyfarfodydd Bethania ganol y mis.

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn annwyl a diolchgar am Zac Davies (Yr Eglwys Newydd). Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu cyfan.

**Priodasau**

Llongyfarchiadau a phob dymuniad **i** Beca Pennar a William Mardell yn dilyn eu priodas ym Minny Street ar 5 Awst ac i Angharad Maxwell a Stephen Jeffrey yn dilyn eu priodas hwythau yn yr Eidal ar 12 Awst .

**Genedigaeth**

Croeso cynnes i Alffi Paul, mab i Rhiannon Wilkins a Mark Williams ac ŵyr cyntaf i John Wilkins. Dymuniadau da i'r teulu.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchwn bawb sydd wedi profi llwyddiant dros yr haf - boed yn yr Eisteddfod, ym myd chwaraeon neu mewn arholiadau.

## SALEM, TREGANNA

**Llwyddiannau**

Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi llwyddo mewn arholiadau dros yr haf a dymuniadau gorau ar ba bynnag lwybr y byddwch yn ei ddilyn, boed hynny yn yr ysgol, mewn coleg neu yrfa.

Llongyfarchiadau hefyd i bawb a gymerodd ran yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst, yn cystadlu fel unigolion, grŵp neu gôr, neu'n cymryd rhan mewn cyngherdd neu berfformiad.

**Ar y gweill**

Ar drothwy Medi rydym yn edrych ymlaen at ail sefydlu patrymau cyfarwydd ac ailafael ym mywyd yr eglwys. Beth fydd yn digwydd?

10 Medi – Oedfa gymun o dan ofal Evan, a bydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau.

17 Medi – Oedfa arbennig o dan ofal y cwmni “Mewn Cymeriad”, yn cyflwyno hanes Mari Jones. Mae'r cyflwyniad yn addas i bawb o 6 oed a throsodd, felly dewch yn llu. Bydd Ysgol Sul i'r rhai o dan 6 oed a bydd 'Paned Posh' yn dilyn gyda'r bobl ifanc yn darparu.

O fis Hydref, bydd oedfa'r bore yn dilyn y patrwm arferol ond byddwn yn arbrofi gyda phatrwm newydd ar gyfer Oedfa'r hwyr dros 6 mis y Gaeaf hyd at fis Mawrth.

Nos Sul gyntaf pob mis – Oedfa arferol yn Salem am 6.00pm o dan ofal Evan.

Pob nos Sul arall - oedfa Zoom fer yn dilyn y patrwm a welwyd yn ystod cyfnod COVID.

**Gweithgareddau Eraill**

**Dydd Llun, 25 – Bore Golud**

Cyfle i'r rhai sy'n dioddef o ddementia, a'u gofalwyr ac unrhyw un arall, daro i mewn i gwrdd am sgwrs a phaned. Bydd Bore Golud yn digwydd bob pythefnos o'r dyddiad hwn ymlaen. Bydd angen cymorth gwirfoddolwyr, felly cysylltwch ag Evan os oes gennych ddiddordeb.

**Cylch Trafod Beiblaidd** - Bydd hwn yn ail ddechrau ym mis Medi. Cadwch olwg ar y Calendr am yr union ddyddiadau.

**Clwb Brecwast** – ar fore Mercher bob pythefnos o 6 Medi, i rieni a phlant o dan oed meithrin

**Clwb Coffi –** bore Mercher 15 Medi yn Ystafell Edwin. Croeso i ymuno am goffi, sgwrs a chwmnïaeth.

**Clwb y Bobl Ifanc –** nos Wener 29 Medi. Cyfarfod cynta'r tymor yn y festri. Mae croeso i bawb o flwyddyn 7 i flwyddyn 13.


**Dyddiad i'w nodi:**

Diolchgarwch – 15 Hydref

## BETHEL, PENARTH

I lawer bu'r Genedlaethol eleni yn un i'w chofio am sawl rheswm, ond i deulu Bethel bydd un rheswm ar y blaen, sef, ein llawenydd yn sgîl llwyddiant Llinos Haf wrth iddi gipio gwobr Osborne Roberts a'r Rhuban Glas, 19-25 oed. Ar gefn ei llwyddiant y llynedd cafodd ei hurddo eleni i'r Orsedd gyda'r Wisg Wen. Beth sydd i'w ddweud wrthi a throsti? Dychmygwch! Erbyn hyn mae Llinos yn Llundain yn sicrhau cartref ar gyfer cam nesaf ei gyrfa, sef, derbyn hyfforddiant lleisiol am ddwy flynedd. Byddwn oll yn awchu am newyddion.

Llongyfarchiadau hefyd i Sian Meinir am gamp lenyddol yn y Genedlaethol. Enillodd y gystadleuaeth am gasgliad o naw



darn o lên micro. Enghraifft dda iawn o'r ymadrodd, 'dweud ychydig awgrymu mwy'.

Bu prynhawn Sul, Gorffennaf 9fed yn ddigon braf i nifer o blant bach a'r aeddfed dreulio oriau ar dir Eglwys yr Holl Saint, gan gynnwys stori gan Kevin. Ymhlith yr ymarferion oedd dringo coeden. Mae'r enw 'John Thomas' yn y Gymraeg yn aml yn dynodi 'Y Cymro Cyffredin'. Nid felly o bell ffordd yma oherwydd gwasanaeth amlweddog a diflino ein cyfaill, Dr John. Ond, gan nodi'r llun, tybed onid cywirach fyddai ei anrhydeddu gyda'r enw John Sacheus Thomas?

Ar Sul Gorffennaf 30 bu Neville yn gosod her yr haf i'r gynulleidfa, sef, rhoi ystyriaeth i'r cwestiwn, Pa fath o Fethel yw'n nod? Hyn gyda golwg ar y cyfnod yn dilyn ymddeoliad Kevin ddiwedd mis Hydref. Mewn paratoad buom yn dilyn podlediad gan Delwyn Siôn ac yn gwrando ar ddarlleniad o ysgrif gan Eirian Rees o'r Tyst.

# Tomos Evans



Mae Tomos Evans o Gaerdydd, yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ac ym mis Gorffennaf, fe raddiodd gyda dosbarth cyntaf mewn Daearyddiaeth o Brifysgol Abertawe! Dyma Tomos yn rhannu ychydig o'i brofiadau gyda ni am ystod ei amser yn y Brifysgol:

“Dewisais astudio ym Mhrifysgol Abertawe am ddau reswm sef astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a mwynhau traethau'r Gŵyr yn ystod fy amser yn astudio yn Abertawe. Roedd hyn yn apelio ata i yn fwy nag astudio mewn dinas fawr. Mae gen i ddiddordeb mewn dilyn gyrfa yn y sector amgylcheddol gan weithio i gwmnïau fel Dŵr Cymru neu Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae cwmnïau o'r fath yn aml yn edrych am siaradwyr Cymraeg i ymuno â'u gweithlu, ac felly credaf y bydd fy ngradd ac astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhoi mantais fawr i fi wrth chwilio am swydd ar ôl graddio. O ran cefnogaeth Gymraeg yn Abertawe, rydw i wedi derbyn cefnogaeth ariannol drwy astudio modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydw i wedi mwynhau fy mhrofiad o chwarae i dîm rygbi Cymraeg Abertawe sef 'Rygbi Tawe' dros y tair blynedd diwethaf. Er nad ydy pawb yn siaradwyr Cymraeg rydw i wedi gwneud ffrindiau da ac rwy'n edrych ymlaen at gadw mewn cysylltiad gyda rhai o'r bechgyn ar ôl graddio.”

# Bwytai Merch y Ddinas



## *Medi'r Cynhaeaf...*

**Lowri Haf Cooke**

Pwy sy'n barod am y tymor newydd? Ydy'ch bag lledr a'ch sgidiau ysgol yn sgleiniog? A beth am gynnwys y cas pensiliau newydd sbon? Fydda i byth cweit yn barod i gyfnewid y ffrog haf am gôt gaeaf... ac wedi'r cyfan, mae mis Medi'n tueddu i fod yn fis hynod braf wedi tywydd 'cyfnewidiol' Awst a Gorffennaf. Ond dwi yn hoffi gweld bach o drefn yn dychwelyd, a'r dyddiadur yn dechrau llenwi eto â gweithgareddau cymdeithasol. Bydd rhai o'r rheiny yn cael eu cynnal o amgylch byrddau bwytai'r brifddinas, yn gyfleoedd gwych i rannu'ch helyntion hafaidd...

Ac mae na ddigonedd o ddewisiadau, hen a newydd, ar gael i drefnu aduniad. Ymysg yr enwau newydd yng nghanol y ddinas; Six By Nico a bwyty Gaucho. Yn lle La Cuina a Bully's yn ardal Treganna, agorwyd Poca a Number 5 Pontcanna. Ac ar Heol Wellfield y Rhath, agorwyd bwyty Silures a changen newydd o Coffi Lab.

Ymysg y profiadwy cofiadwy i mi'u sawru ar hyd y tymor, wel creodd bar gwin Nighthawks argraff fawr. Mae'r lleoliad canolog yn rhan anhepgor erbyn hyn o'r gylchdaith bariau yng nghwmni ffrindiau. Mae na rywbeth cyfandirol am yr awyrgylch hamddenol yno, rhwng Heol y Dug ac arcêd y Castell. Ac os ydych chi'n gyfarwydd â gweithiau celf yr Americanwr Edward Hopper, mae yno'r un naws ddinesig ag y cyfleir yn ei luniau enwog. Ond yr atyniad mwyaf i mi



***Silures***



***Poco***

yw'r fwydlen gryno o dameidiau bwyd. Fy ffefryn o bell ffordd yw'r frechdan gaws wedi'i dostio. Anfawrol, gyda glasied o win rhosliw!

Ar ddechrau'r haf ges i noson hynod braf yng nghwmni ffrind ro'n i heb ei weld ers cantoedd. Archebodd e fwrdd i ni yn Poca, ar Heol y Brenin, Treganna, ble fu La Cuina, a Patagonia cyn hynny. Trwy hap a damwain, a heriau cyflenwyr munud olaf, fe lanion ni yno ar y noson agoriadol. Nawr dyna un noson fydda i wastad yn ceisio'i hosgoi, er mwyn sbario byd o broblemau. Ond wyddoch chi beth? Redd yn noson hollol ddi-fai tua diwedd mis Mehefin. Roedd y gwasnaeth yn wych, a'r decor ysgafn yn hyfryd iawn – a'r fwydlen o blatiau bychain? Arbennig. Mae'r ffasiwn 'platiau bychain' wedi lledaenu fel pla dros y ddinas, a rhaid i mi gyfaddef, dwi'n tueddu i gredu fod yr holl beth yn 'con'. Ond mama mia, son am wledd hynod ddymunol – a'r tartare cig eidion oedd y seren i mi y noson honno. Gallai'm aros i ddychwelyd mewn cwmni da!

Yna, yn ystod y tywydd chwilboeth hwnnw tua canol mis Mehefin, ges i gyfle i brofi Silures. Mae ganddynt ddêl arbennig o dda dros ginio, sef 2 gwrs am £25 – sy'n ffordd hynod glyfar o ddenu gloddestwyr chwilfrydig i'r bwyty moethus, sy'n f'atgoffa i ychydig o fwyty Tom Simmons. Allai'm dweud fod na unrhywbeth penodol sy'n dathlu'r llwyth Celtaidd lleol, dim ond yr enw, Silures, sy'n fwy o 'frand' nag unrhywbeth arall. Ond rhaid canmol y fwydlen; ges i

hoc ham i ddechrau yna'r Salad Cesar godidog, gan adael yn llawn a llon fy myd, cyn dychwelyd at y sgrifennu. Clywais nifer yn canmol y cinio Sul 'ardderchog' – rhywbeth i edrych ymlaen ato felly dros dymor yr hydref.

Ac yn olaf, ond nid leiaf, llongyfarchiadau mawr i fwyty Pasture. Na, nid gwobr a enillwyd, ond fe'i ddewiswyd am ddathliad arbennig, y chwaraeais i ran fechan yn y detholiad! Cwestiwn a nghyrhaeddodd i ar instagram; *'Cariad chwaer fy ngwraig yn bwriadu gofyn iddi briodi ddydd Llun nesa, ac isio mynd allan am fwyd i rwla neis efo'r teulu y noson yna. Sgen ti syniad am rwla posh/ neis rownd Caerdydd fasa ar agor nos Lun?'* Wedi awgrymu sawl man, deallais mai Pasture oedd y dewis. A'r ymateb wedi hynny? *'Pasture wedi ein dinistrio ni. Iasu Grist. Diolch. Sut mae'r fath beth yn bosib?'* Ond tybed a holwyd y cwestiwn tyngedfennol? *'Do, am chwarter wedi deg y bore. Pa amser gwell? Llwyddiant ysgubol. Gawson ni foron yn Pasture. Hurt o dda.'*

A fu adolygiad gwell i fwyty dinesig?! Llongyfarchiadau mawr i'r pâr hapus, a'u teulu dedwydd. A *bon apetit* i bob dinesydd y tymor newydd hwn! Xxx

Nighthawks, 47- 49 Arcêd y Castell CF10 1BW

Poca, 11 Heol y Brenin, Treganna CF11 9BZ; 02922 338340

Silures, 55 Heol Wellfield, Penylan CF24 3PA; 02920 806369

Pasture, 8-10, Y Stryd Fawr, Caerdydd CF10 1BB; 07511 217422

*Bwytai Cymru* gan Lowri Haf Cooke, Gwasg Gomer, £9.99

## Profiad gwaith gyda'r *Dinesydd*

Cristyn Rhydderch Davies

Helo! Fy enw i yw Cristyn, ac rwy'n ddisgybl yn Chweched Dosbarth Ysgol Plasmawr. Ym mis Gorffennaf, mi dreuliais bedwar diwrnod gyda'r *Dinesydd* ar brofiad gwaith, a dyma imi fyfyrio ar y profiad gwych yma.

Yn sicr, doeddwn i ddim yn disgwyl i'r papur fod yn sut gymaint o ymdrech gymunedol. Roedd hi'n ddiddorol gweld faint o bobl sydd eu hangen nid yn unig i gynnal y papur o safbwynt olygol, ond hefyd i gynnal y darllenwyr. Gan nad oes swyddfa gan y papur, disgwyliais i'r broses o'i gynhyrchu fod yn ynysig, ond mae'r broses yn gymdeithasol dros ben.

Ar hyd yr wythnos, cymdeithasais â darllenwyr, megis aelodau o grŵp Ebeneser a dysgwyr Cymraeg, wrth drafod eu profiad o ddarllen y papur. Roedd hi'n galonogol gweld faint o angerdd oedd gan ddysgwyr dros y Gymraeg, a trafodon ni bwysigrwydd y papur o ran hynny. Magais hyder gyda'r trafodaethau, wrth i mi glywed gan eraill a rhannu fy syniadau i yn ogystal.

Mi ddysgais llawer am bapurau bro eu hunain – sut maent yn darparu gwybodaeth a rhannu newyddion gyda'r gymdeithas, a chynnal y Gymraeg – rhywbeth doeddwn i ddim yn gwybod llawer amdano.

Cefais sesiwn gydag Eirian Dafydd wrth iddi ddangos sut mae cysodi. Mae'r broses o grefftio rhifyn yn hirfaith ond gwerthfawr; derbyn cyfraniadau iddynt gael eu golygu, darllen pob un gair, gosod popeth yn drefnus, ac yna anfon y cwbl at y wasg i argraffu. Yn wir, mae'r cwbl werth ei wneud i sicrhau rhifyn llwyddiannus! Roedd ganddi brosesau clyfar oedd yn sicrhau bod y broses o gysodi yn gynhyrchiol, taclus, a deniadol.

Cefais sgwrs hefyd gyda fy nghyn-brifathro, John Hayes, am ei rôl ar bwyllgor y papur. Yn gyson yn ystod yr wythnos, roedd yna drafodaeth am lais a phresenoldeb yr ifanc, a sut gellir denu cyfranwyr a darllenwyr ifanc at y papur. Credaf roedd hyn wedi fy nysgu sut i feddwl gydag ongl gymdeithasegol, wrth i ni asesu effaith papurau bro, y gynulleidfa, a sut gall bobl ifanc fuddio ohonynt.

Heb os, roedd sgyrsiau gydag E. Wyn James a Gwilym Roberts yn ddifyr iawn, wrth imi glywed am hanes y papur a oedd yn glonc i ddysgwyr ar y dechrau, ynghyd â'r elfen ariannol a'r newid o fod yn bapur newydd i gylchgrawn.

Roedd sesiwn Zoom gyda chyfranwyr a darllenwyr yn werthfawr i glywed barnau amrywiol ar y papur o ran bodoli fel cyfrol hylifol a fydd yn datblygu. Felly, dysgais lawer o ran papur bro fel adlewyrchiad o gymdeithas dros amser, a'i bresenoldeb mewn oes ble mae cyfryngau cymdeithasol yn bethau dros dro.



Mireiniais sgiliau niferus, o rai newyddiadurol, i ysgrifennu a chymdeithasu, ac rwyf wedi buddio o'r cyfle yn fawr. Cyfarfyddais â chymaint o bobl oedd wedi rhoi profiad addysgiadol iawn imi, ac wedi rhannu eu doethineb a'u profiad o'r *Dinesydd* gyda mi. Diolch yn fawr i bawb.

Mwynheais y profiad yn fawr iawn, ac edrychaf ymlaen at gyfrannu mwy at y papur!

*Diolch yn fawr Cristyn am dy gwmni a'th gyfraniad trwy'r wythnos. (y pwyllgor)*

# Y DIGWYDDIADUR

## Medi

**Iau, 14 Medi**
'Bingo'r Beirdd' yn y Tabernacl ar yr Ais am 7.30pm. £10.00 wrth y drws; yr elw i Ŵyl Cerdd Dant Caerdydd 2023.

**Llun, 18 Medi**
Ymarfer cyntaf y Côr Gwerin newydd, yn Festri Salem, Treganna, am 7.00pm, a phob nos Lun o hynny ymlaen.

**Llun, 18 Medi**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan Tim Hartley ar y testun 'Y Barri, y BBC a phêl-droed'. Yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653). Dyma gyfarfod cyntaf y tymor. Croeso i aelodau hen a newydd.

**Iau, a Gwener, 21-22 Medi**
Dafydd Iwan ac Ar Log yn yr Earl Haig, Yr Eglwys Newydd, am 7.00pm. Tocynnau trwy Eventbrite.

**Iau, 21 Medi**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan Dr Lowri Cunnington Wynn (Prifysgol Aberystwyth) ar y testun 'Cyfiawnder Amgylcheddol a Chenedlaethau'r Dyfodol: effaith yr argyfwng hinsawdd ar bobl ifainc sy'n byw mewn cymunedau arfordirol yng ngogledd-orllewin Cymru'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Gwener, 29 Medi**
Diwrnod Coffi Macmillan o 9.00am tan 4.30pm yn 184 Heol Llanedeyrn, Pen-y-lan, CF23 9EA. Croeso i chi gefnogi achos teilwng. Manylion pellach gan Gwilym Wyn Roberts (07968-463737). (serenagwill@btinternet.com;

**Gwener, 29 Medi**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. 'Rhyddid: Cerddi'r Goron 2023.' Holi'r Prifardd Rhys Iorwerth, enillydd Coron Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023, yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 7.15pm. Croeso cynnes. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, yr Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## Hydref

**Llun, 2 Hydref**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Yng Ngwesty'r 'New House', Heol y Ddraenen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA, am 7.00 ar gyfer 7.30pm. Pris: £28 yr un. Siaradwyr gwadd: Elinor Bennett a Dafydd Wigley. Croeso cynnes i bawb, yn arbennig i gyfeillion newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Paul Morgan, ar 07761-696286 neu cylch.cinio@gmail.com.

**Mawrth, 3 Hydref**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Matico: cefnogi addysg i blant Ghana a hyrwyddo cyfrifoldeb amgylcheddol. Sgwrs gan Mati Roberts am 7.30pm yn festri'r capel (CF24 4ER). Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 4 Hydref**
Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Sgwrs gan Bet Davies ar y testun 'Lloffion Gaijin – olrhain cysylltiadau rhwng Cymru a Japan', yn Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur am 7.30pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545).

**Gwener, 6 Hydref**
Cymrodorion Caerdydd. Cynhelir cyfarfod agoriadol y tymor yn Salem, Treganna, am 7.30pm. Wedi arwisgo'r Llywydd newydd, E. Gwynn Matthews, traddodir sgwrs ganddo ar y testun 'Clorianu Gwladgarwch: Richard Price 1723–1791'. Bydd modd ymuno â'r cyfarfod cyntaf hwn trwy gyfrwng Zoom yn ogystal, ond bydd pob cyfarfod wedi'r cyntaf trwy Zoom yn unig. Y tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £10; y pris mynediad i gyfarfod unigol yw £3.00 (ond yn rhad ac am ddim i aelodau). I dderbyn gwybodaeth ynghylch sut i dalu'r tâl aelodaeth neu'r pris mynediad i gyfarfod unigol, a derbyn y ddolen Zoom, anfonwch at air cymrodorioncaerdydd@gmail.com. Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 6 Hydref**
Cylch Cadwgan. Sgwrs gan y Prifardd Cyril Jones ar y testun 'Man Gwyn y Smotyn Du', yn y Ganolfan, Tabernacl, Efailisaf, am 8.00pm. Fe'i trefnir gan eglwys Tabernacl, Efailisaf. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Ysgrifennydd Cylch Cadwgan, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Sadwrn, 7 Hydref**
Steffan Rhys a Mared yn 'Y Dosbarth', Coleg Caerdydd a'r Fro, Heol Dumballs, CF10 5FE, am 7.00pm. Yr elw i Ŵyl Cerdd Dant Caerdydd 2023. Tocynnau ar gael gan Delyth Medi neu Glenys Llewelyn (glenys.llewelyn@sky.com).

**Mawrth, 10 Hydref**
Bydd y pianydd llachar ei dechneg a hynod ei ddehongliadau cerddorol Christopher Williams yn rhoi Datganiad yn Neuadd Gyngerdd Prifysgol Caerdydd, Heol Corbett, am 7.00 y.h. Yn ogystal â darnau rhamantaidd gan Chopin a chyfansoddwyr eraill, perfformir dwy sonata fyrlymus gan Richard Elfyn Jones – ei 'Ail Sonata i Biano ' a 'Sonata Altea'.

**Llun, 16 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Noson yng nghwmni Arwel Ellis Owen. Yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653). Croeso i aelodau hen a newydd.

**Mawrth, 17 Hydref**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Noson yng nghwmni'r Canon Aled Edwards, Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, am 7.30pm yn festri'r capel (CF24 4ER). Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 23 Hydref**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan Dr Haydn E. Edwards ar y testun 'Griffith Davies FRS: Arloeswr a Chymwynaswr'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Iau, 26 Hydref**
Cylch Cadwgan. Sgwrs gan yr Athro Prys Morgan ar y testun 'Atgofion o Bethlehem a Salem Gwaelod-y-garth', yng nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth, am 7.30pm. Fe'i trefnir gan eglwys Bethlehem, Gwaelod-y-garth. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Ysgrifennydd Cylch Cadwgan, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Anfonwch fanylion ar gyfer Y Digwyddiadur at Yr Athro E. Wyn James 16 Kelston Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2AJ 029-2062-8754; JamesEW@caerdydd.ac.uk**

## Annibyniaeth Gydag Irram

**Sut gallai Cymru fforddio annibyniaeth?**

Y cwestiwn mwyaf cyffredin a gaiff ei ofyn i mi gan y cyhoedd yng Nghymru wrth siarad am annibyniaeth yw sut allwn ni ei fforddio?

Mewn cylchoedd 'Indy' mae 'egni' wastad yn cael ei grybwyll fel yr ateb. "Gadewch i ni godi tâl ar Loegr am y dŵr a'r trydan y mae'n ei gymryd gennym ni." Mewn theori gwych, ond mewn gwirionedd, nid yw mor ymarferol â hynny ac mae angen rhywfaint o waith.

Mae gan Gymru adnoddau naturiol sylweddol ar ffurf dŵr, mae ganddi 15% o bŵer llanw Ewrop. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw Cymru'n cynhyrchu unrhyw drydan o bŵer llanw (er ei fod yn cael rhywfaint o drydan gan ynni dŵr). Tra gallai Cymru annibynnol godi tâl am yr adnoddau hyn, a fyddai Lloegr yn fodlon talu amdano? Mae dŵr yn drwm ac yn ddrytach i'w gludo na nwy; nid oes 'grid dŵr' yn y DU fel y Grid Cenedlaethol ar gyfer trydan. Dilewyd cynigion ar gyfer grid dŵr oherwydd cost aruthrol, effeithiau amgylcheddol adeiladu argaeau a newid hinsawdd yn newid patrymau glawiad. Mae'r ardaloedd yn Lloegr sydd fwyaf tueddol o sychder yn y de-ddwyrain ac, felly, byddai mwy o gost i gludo dŵr yno nag i Birmingham neu Lerpwl. Gan ychwanegu cost dihalwyno dŵr y môr (cael gwared ar yr halen i'w wneud yn addas i'w yfed), byddai'n rhatach i Loegr sefydlu ei ffatrïoedd dihalwyno ei hun na mewnforio dŵr o Gymru.

O edrych ar drydan, yn 2018 cynhyrchodd Cymru ddwywaith gymaint o drydan ag yr oedd yn ei ddefnyddio, gyda'r potensial i gynhyrchu hyd yn oed mwy. Un ffordd o wneud hyn yw gyda morlynnoedd mawr gyda thyrbinau. Wrth i ddŵr symud o lanw uchel i isel, ac i'r gwrthwyneb, mae'n troi'r tyrbinau, gan gynhyrchu trydan. Nid oes unrhyw nwyon tŷ gwydr yn cael eu hepgor ac mae dŵr yn ffynhonnell pŵer gwarantedig yn wahanol i wynt a solar.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Morlyn Llanw Bae Abertawe a byddai wedi buddsoddi £200m yn y Prosiect. Fodd bynnag, gwrthododd Llywodraeth y DU warantu pris y trydan a fynnodd ei gefnwyr. Roedd hyn yn golled i Gymru gan mai bwriad y Prosiect oedd galluogi adeiladu morlynnoedd mwy yng Nghymru. Mae arfordir Cymru sy'n cynnwys baeau a mewnfeydd yn ddelfrydol i fanteisio ar bŵer llanw. Amcangyfrifwyd mai dim ond un lagŵn mawr yn Ne Cymru ac un yng Ngogledd Cymru allai gynhyrchu 10% o ynni'r DU. Dylid nodi bod y Grid Cenedlaethol ar gyfer trydan yng Nghymru yn gweithredu o'r dwyrain i'r gorllewin, felly byddai angen gwaith hefyd i wella'r cysylltedd gwael rhwng y gogledd a'r de.

Dylid cofio hefyd nad yw pibellau dŵr a gridiau trydan yn eiddo i Gymru, mae llawer yn cael eu rhedeg yn breifat. Yn dilyn annibyniaeth, byddai'n rhaid i Gymru naill ai ddod i gytundeb â Llywodraeth y DU ar barhau i gael rhwydwaith integredig neu adeiladu ei hun, neu wladoli'r asedau hyn (gyda sgil-effeithiau cwmnïau nad ydynt o bosibl yn dymuno buddsoddi yng Nghymru yn y dyfodol).

Yn ei lyfr, *Independent Nation*: should *Wales leave the UK?*, mae'r newyddiadurwr Will Hayward yn trafod sut mae angen 'cilfachau' ar wledydd annibynnol i fforddio annibyniaeth gan eu bod yn cystadlu â'i gilydd ym marchnadoedd y byd. Gallai 'cilfach' Cymru fod yn ynni gwyrdd. Pe bai'n gallu goresgyn yr heriau ym maes peirianneg a diogelu'r amgylchedd, byddai mewn sefyllfa dda i fod wrth wraidd y diwydiant newydd hwn sy'n tyfu, gan ddenu buddsoddiad a'r meddyliau gwyddonol ac economaidd gorau o bob cwr o'r byd yn ogystal â datblygu ei weithlu ei hun. Yr adnodd gwych arall sydd gan Gymru yw ei phobl, cyn belled â'i bod yn gallu darparu cymhellion i genedlaethau iau aros yng Nghymru ac adeiladu eu bywydau yma.


Mae'r cyfleoedd a'r posibiliadau ar gael yno.

## LLWYBRAU'R DDAWNS

**Gan Alice E Williams ac Eiry Palfrey**

**(Cyhoeddwyr Gwasg Carreg Gwalch)**

Llyfr arobryn am ddawnsio gwerin Cymru a ddechreuwyd gan Alice a gorffennwyd gan Eiry.




Fe'ch gwahoddir yn gynnes gan Gymdeithas Cymdorodrion y Barri a Chymdeithas Ddawns Werin Cymru i ymuno â ni mewn lansiad yng Nghanolfan Addysg Palmerston y Barri (Cadoc Crescent CF63 2NT) Nos Fawrth Medi 19eg am 7 o'r gloch.

Darperir cyflwyniad, a dawnsio gwerin gan Ddawnswyr Gwerin Pen-y-Fai.

Bydd y llyfrau ar werth yn ystod y lansiad am £12 y copi

***Darlun clawr - Dafydd Palfrey***

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

1. Ydych chi'n cael trafferthion gyda'ch taliadau morgais? Gall cytundeb rhwng y Canghellor a'r banciau eich helpu. Mae'r cytundeb yn caniatáu i chi newid eich morgais i forgais llog yn unig am gyfnod o 6 mis neu i chi ymestyn hyd eich morgais er mwyn lleihau eich taliadau misol. Cofiwch bydd hyn yn cynyddu cyfanswm y ddyled, ond gall hyn fod o ddefnydd yn y tymor byr.
2. Ar ochr arall y geiniog, wrth i gyfraddau llog godi, mae mwy o bobl yn derbyn llog ar eu cynilion sy'n uwch na'r trothwy di-dreth (sef trothwy blynyddol o £1,000 i drethdalwyr cyfradd sylfaenol a £500 i drethdalwyr cyfradd uwch). Gwnewch yn siwr eich bod yn defnyddio eich lwfans ISA di-dreth blynyddol o £20,000 i wneud y mwyaf o'r llog y gellir ei dderbyn yn ddi-dreth.
3. Byddwch yn wyliadwrus o "gyfloedd buddsoddi" ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'n hawdd iawn i greu cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol sy'n gorbwysleisio'r enillion posib neu i greu sgamiau.

Mae yna achosion yn ddiweddar o sgamiau lle maent yn dweud "*Os y'ch chi'n buddsoddi £250 heddiw*", gallwch chi ddyblu'ch buddsoddiad o fewn ychydig wythnosau. Yna, mae'r twyllwyr yn diweddaru eich cyfrif o fewn pythefnos i ddangos eich bod wedi dyblu'ch arian ac yn eich annog i fuddsoddi mwy. Os ydych yn ceisio tynnu unrhyw arian mas o'r cynllun, mae'r twyllwyr yn aml yn cynyddu eu hymdrechion i chi fuddsoddi symiau pellach. Mae tynnu arian mas o'r cynllun yn amhosib ac mae'n dod i'r amlwg mai sgam oedd hyn o'r cychwyn cyntaf.

***Cwestiynau Huw ac Aled:***

*Mae fy mam a'n nhad bellach wedi marw. Fe wnaethon nhw roi £500,000 i mi ac fy chwaer 5 mlynedd yn ôl. Gan bod sawl blwyddyn wedi mynd heibio ers hyn, ac mae'n weddol agos at y "rheol 7 mlynedd" ar gyfer treth etifeddiaeth, a yw hyn yn golygu bod llai o dreth etifeddiaeth i'w dalu ar y rhodd? Oes modd hawlio rhyddhad tapr (neu "taper relief")?*

Yn anffodus, yr ateb yw na. Rhyddhad tapr ar dreth etifeddiaeth yw un o'r gostyngiadau treth sy'n cael ei gamddeall fwyaf.

Dim ond os yw rhoddion yn fwy na'r lwfansau di-dreth y mae rhyddhad tapr yn bosib. Ar gyfer unigolyn, mae hyn fel arfer yn golygu bod rhyddhad tapr ond ar gael ar roddion dros £325,000 a wnaed rhwng 3-7 mlynedd o farwolaeth. Os, fel yn yr achos hwn, lle ar yr ail farwolaeth rydych yn gymwys i hawlio lwfansau'r ddau rhiant o £325,000 yr un (cyfanswm o £650,000), rhaid i'r rhoddion fod yn fwy na'r swm hyn cyn bod unrhyw rhyddhad tapr yn berthnasol.

O ganlyniad, yn ymarferol dim ond ychydig iawn o ystadau cyfoethog iawn sy'n gallu hawlio rhyddhad tapr yn erbyn treth etifeddiaeth.

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni trwy:*
*Huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

---


# NEWYDDION YN TORRI

**Yn arbennig i gystadlu yng Ngŵyl Cerdd Dant Caerdydd 2023, bydd Côr Cerdd Dant S/A newydd yn cael ei sefydlu o dan ofal Delyth Medi Lloyd ac Owain Sion Williams. Bydd yr ymarferion yn cael eu cynnal bob nos Fawrth o 5 Medi am 7.30 yn Adran Ddrama Ysgol Glantaf.**

**Hefyd, bydd ymarferion Côr Gwerin bob nos Lun o 18 Medi am 7.00 yn festri Capel Salem. Croeso i bawb!**



## Rhif: 235



**Ar Draws**

7.'Mae'n dawel yn awr yn ----- Llyn
Lle gynt y bum yn dysgu cân y byd' (D.I) (6)
8. Rhestr o'r sêr sy'n cefnu ar gwmni cyfyngedig (6)
10. Dwyn tad arall (7)
11. Dim gwres er cael y gore o'r ynni ar yn ail (5)
12. Ffurf ar godi pais (4)
13. Gwasgu'r anhyddysg i gael hyfforddiant (5)
17. Dyma sglodion a phlisgyn yn eu canol (5)
18. Yr aer sy'n gwybod (4)
22. Yn gellweirus ar ddechrau sesiwn misol ar lunio araith (5)
23. Gwas cun efallai ond barus (7)
24. Archwiliad o'r gŵr ola efallai (6)
25. Gall ein maes ni fod yn lle i weld lluniau (6)

**I Lawr**

1. Helpu'r llesg cyn i'r cesair ddod ……. (7)
2. …… gyda Sal druan ar yr iard (1,6)
3. Defnydd wrth fodd calon Nansi Daniel (5)
4. Byw'n yr un cyfnod yn Is-y-Coed efallai (7)
5. Gweld mynyddoedd yn nyfnder yr iseldir (5)
6. 'Mae'r ----- fach yn gwasgu
Mewn man na wyddoch chwi' (5)
9. 'Rwyn ----- ----- ----- nef
Ond hedd gyhoedda hi' (J.C.D.) (5,3,1)
14. 'Craig ----- mewn tymhestloedd
Craig a ddeil yng ngrym y lli' (S.J.G.) (7)
15. Gweithred mewn gwers anorffenedig heb ddim ynddo (7)
16. 'Croesaw Medi, fis fy serch
Clir fel ----- yw'th foreau' (E.W.) (7)
19. 'Drain ac ----- mall a'i medd,
Mieri lle bu mawredd' (E.E.) (5)
20. Clorian i'r dail yma (5)
21. Maen gwerthfawr yn ddiogel wyrdd (5)

**Enillydd Croesair Rhif 233**
**Eira Milton Jones, Y Mynydd Bychan**

**Atebion Croesair Rhif 233**

**Ar Draws:** 1. Acer 7. Er trymed yw 9. Cwestiwn 10. Iago 12. Campio 14. Dawnus 15. Fawnog 17. Cerbyd 18. Glog 19. Aelwydydd 21. Canmoladwy 22. Suddo

**I Lawr:** 2. Cadw gafael 3. Reis 4. Cyfnod 5. Dewiswyr 6. Pwyo 8. Trigo 11. Grug y mynydd 13. Penigamp 16. Gwaelu 17. Caled 18. Gwcw 20. Ynys

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Hydref 2023
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

---

## Yr Hen Gôr Caerdydd

'Roedd yr hen lun o Gôr Caerdydd yn ôl yn 1935 yn rhifyn diwetha'r *Dinesydd* wedi f'atgoffa am hanes a fydd efallai o ddiddordeb i chi'r darllenwyr. 'Roedd fy mam Enid yn aelod o'r côr fel merch ifanc, er ar ôl i'r llun cael ei dynnu. Yn aml iawn bu'r côr yn canu ar y radio a gwaith mam oedd troi tudalennau'r gerddoriaeth i Teddy Richards yr organydd. Ambell waith, y technegydd sain ar ddyletswydd i'r BBC oedd dyn ifanc o'r enw Arwel Hughes. Daeth Enid ac Arwel yn ffrindiau mawr ac yna, ar ôl priodi, daeth y ddau yn aelodau yn y Tabernacl ac yn organyddion yno am flynyddoedd. Roeddent yn hoff iawn o adrodd i mi a fy mrodyr eu stori serch – sef eu bod wedi cwrdd wrth organ Tab!!

*Delun Callow*



**Tymor newydd o weithgareddau**
Gyda'r gwyliau wedi dirwyn i ben, mae tymor newydd o weithgareddau ar ddechrau. Dyma i chi flas o rai o'r cyrsiau, sesiynau a chlybiau sydd i ddod dros y misoedd nesaf.

**Gweithgareddau Awyr Agored**
Bydd criw **Cerdded a Chlonc** yn cwrdd ym Mharc y Rhath fore Mawrth, 5 Medi i grwydro a sgwrsio'n hamddenol. Yna, ar fore Sul, 10 Medi byddwn yn cynnal taith gerdded ola'r tymor gan ddechrau ym mharc Cefn Onn a cherdded i Graig Llys-faen.
Bydd sesiynau **Lonc a Chlonc** yn parhau yng nghwmni criw Mae Hi'n Rhedeg: Caerdydd. Dyma gyfle i ferched dros 18 oed gwrdd i redeg a chymdeithasu.




**Sgwrs y Mis (Zoom)**
Dr Lowri Cunnington Wynn o Brifysgol Aberystwyth fydd ein siaradwr gwadd, nos Iau, 21 Medi. Y pwnc dan sylw fydd effaith yr argyfwng hinsawdd ar bobl ifanc sy'n byw mewn cymunedau arfordirol yng ngogledd orllewin Cymru. Gyda lefel y môr yn codi a rhai ardaloedd mewn perygl o gael eu boddi, beth yw'r oblygiadau ar gyfer y genhedlaeth nesaf?

**Mewn Tiwn (Canolfan Beulah, Rhiwbeina)**
Bydd ein cyngherddau misol yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn gyda'r sesiwn nesaf ar fore Llun, 25 Medi yng nghwmni Delwyn Siôn. Bydd paned ar gael o 11.15 ac mae croeso i bawb. Mae'r gyngerdd yn rhad ac am ddim.

**Cadw'n Heini**
Yn ogystal â Lonc a Chlonc, bydd Ffitrwydd gyda Ffrindiau'n parhau bob yn ail wythnos yng Ngerddi Soffia a'r dosbarth Tai Chi yn dychwelyd i Hyb Rhydypennau. Edrychwn ymlaen at gynnig dosbarthiadau pilates a ioga hefyd y tymor yma a chewch hyd i wybodaeth bellach ar ein gwefan.

**Hen Ffefrynnau**
Mae'r dosbarth Sbaeneg yn mynd o nerth i nerth a'r criw yn edrych ymlaen at ailymgynnull ym mis Medi. Mae croeso i aelodau newydd ond noder nad yw'r cwrs yn addas ar gyfer dechreuwyr. Bydd criw hwyliog y Gerddorfa Ukulele yn cwrdd yn wythnosol dan arweiniad Mei Gwynedd a'r dosbarthiadau Cynganeddu yn ailddechrau ar gyfer tymor newydd o farddoni.
Bydd y Bore Coffi Misol i ddysgwyr yn cwrdd eto fore Gwener ola'r mis ar Zoom mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Caerdydd.

**Cwrs Hanes (Zoom)**
Eisiau gwybod mwy am Gymru'r Oesoedd Canol ac olrhain hanes rhai o enwau mawr y cyfnod? Yr Athro Huw Pryce fydd yn cynnal ein cwrs hanes nesaf, sy'n dechrau nos Lun, 2 Hydref ac yn rhedeg am 3 wythnos. Teitl y cwrs fydd, 'Ar drywydd y tywysogion: o Lywelyn Fawr i Owain Glyndŵr'. Ewch i'r wefan am fwy o fanylion.

**Sgiliau Cyfrifiadurol**
Eisiau mynd ati i hel eich achau gan ddefnyddio adnoddau ar-lein? Methu defnyddio to bach wrth deipio? Cael ofn wrth dalu dros y we? Os yw technoleg yn peri penbleth i chi, dewch i ddysgu sgiliau technolegol newydd yn Hyb Rhiwbeina. Bydd ein cwrs tair wythnos o hyd yn cynnwys gwybodaeth am sut i fynd ati i wneud ymchwil ar y we ac yn eich cyflwyno i wefannau all eich helpu i olrhain hanes eich teulu. Byddwch hefyd yn derbyn cyngor ar sut i gadw'n ddiogel wrth dalu ar-lein ac am gadw cyfrifon ariannol gan ddefnyddio taenlen arbennig. Gan ddefnyddio meddalwedd Microsoft Word, Excel a mwy, cewch fagu hyder a sgiliau er mwyn gallu goresgyn heriau'r byd technolegol.

**Clybiau Plant**
Wrth edrych ymlaen at fis Tachwedd ac ymweliad yr Ŵyl Cerdd Dant â Chaerdydd, byddwn yn cynnal Gweithdy Telyn i blant dros yr wythnosau nesaf. Digwyddiad cyffrous arall yw ein Gweithdy Coedwig ar 30 Medi ar gyfer plant ym mlynyddoedd 2 i 5. Dewch i chwarae a dysgu sgiliau newydd yn yr awyr agored yn Global Gardens. Cofiwch hefyd bydd ein Gweithdai Gwyddoniaeth poblogaidd hefyd yn dychwelyd yn nhymor yr hydref!
Bydd ein sesiynau ar gyfer plant bach a'u teuluoedd, gan gynnwys Amser Stori, hefyd yn ail-ddechrau ym mis Medi, mewn lleoliadau amrywiol o gwmpas Caerdydd a Bro Morgannwg.

**I ddod cyn bo hir!**
Cyrsiau newydd – Adweitheg a Gwnïo**.**
Bore Iau, 19 Hydref – Taith i'r Senedd (rhad ac am ddim).
Bore Iau, 9 Tachwedd – Taith i Orielau Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac arddangosfa Artes Mundi (rhad ac am ddim).

Gwefan: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru
Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg
https://www.instagram.com/mentercaerdydd/ https://www.instagram.com/menterbromorgannwg/
E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888